

ECO'R WYDDFA

Rhif 260

HYDREF 1999

Pris 40c

Llund bocsys o lyfrau



Unwaith eto mae Ysgol Brynrefail yn diolch i chwi, y gymuned, a aeth ati yn frwdfrydig iawn i gasglu tocynnau 'Free Books for Schools'. Roedd yr ymateb yn wych ac roedd y cyfanswm terfynol (dros 11,000) yn adlewyrchu hynny.

Daeth y syniad gwreiddiol o gasglu gan Gwen Rowlands (blwyddyn 10) a diolch iddi a'r plant eraill a aeth ati i gasglu mor frwdfrydig.

Gethin Jones o Ddeiniolen oedd y disgybl a gasglodd y nifer mwyaf o docynnau — dros 1,000. Diolch yn fawr iddo ef a

phawb arall, ac wrth gwrs i Mr Euron Hughes am gyfrif, cadw a threfnu'r holl ymgais.

Bellach mae'r llyfrau wedi cyrraedd a chafwyd setiau cyfan o lyfrau ar gyfer y disgyblion a nifer fawr iawn fydd ar gael at ddefnydd pawb yn yr ysgol.

Awdur Prysur

Mae'r awdur a'r golygydd o Fethel, J. Elwyn Hughes, newydd dreulio ychydig fisoedd anghyffredin o brysus — ymddangosodd tri chyhoeddiad dan ei enw ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni.

Ef yw golygydd cyfrol *Cyfansoddiadau a Beirmiadaethau* yr Eisteddfod Genedlaethol — cyhoeddiad na fyddai gwiw iddo beidio ag ymddangos ar ddydd Gwener yr Eisteddfod pan gaiff yr holl gyfrinachau eu datgelu i'r byd. Mae Mr Hughes wedi bod yn geidwad cyfrinachau'r cystadleuwyr i gyd, gan gynnwys canlyniadau cystadlaethau'r Gadair, y Goron a'r Fedal Ryddiaith.

Deall Bwletinau Newyddion
Mae'r ail lyfr y bu'n gweithio arno newydd ddod o'r wasg. *Geiriau'r Newyddion / News-*

Speak 4 yw'r pedwerydd yn y gyfres boblogaidd o gasgliadau dwyieithog o eiriau ac ymadroddion a gaiff eu defnyddio ar fwletinau newyddion Radio Cymru (ac ar y teledu hefyd). Roedd y llyfr yn ar gael yn rhad ac am ddim, drwy garedigrwydd Radio Cymru, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Mae'r tri rhifyn blaenorol wedi cael eu defnyddio'n helaeth gan ddosbarthiadau dysgwyr ac ysgolion yn ogystal â chan unigolion.

Cymorth i'r Gofalyddion

Yn dilyn llwyddiant ysgubol *Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu*, un o'r llyfrau mwyaf poblogaidd a buddiol a fu erioed yn y Gymraeg, gydag oddeutu 30,000 o gopiau wedi eu gwerthu hyd yma, a'i gyhoeddiad diweddaraf, *Canllawiau Ysgrifennu Cymraeg*

(yn cynnwys arweiniad ar gyfer ysgrifennu Cymraeg cywir), mae J. Elwyn Hughes unwaith eto wedi taro ar syniad gwreiddiol iawn, sef *Gair i Glaf: An English-Welsh Phrasebook for Health Care Professionals*. Pan oedd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd y llynedd, daeth yn ymwybodol iawn o ddiffyg amlwg yn yr hyn a gynigid o ran darpariaeth ddwyieithog nid yn unig yn Ysbyty Gwynedd ond mewn ysbytai a sefydliadau gofal iechyd eraill hefyd.

Llyfryn Poded

Nyrs o'r enw Tasnim a oedd ar ddyletswydd nos yn Ysbyty Gwynedd a dynnodd ei sylw gyntaf at angen amlwg gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd am gymorth ymarferol ar ffurf llyfryn poded yn cynnwys ymadroddion a brawddegau

parhad ar dudalen 2

Ymddeoliad Miss Beryl Thomas Post-feistres Llanrug

Go brin bod llawer ohonom yn dewis gweithio am fwy na deng mlynedd ar hugain y dyddiau yma, ond dyna fu hanes Miss Beryl Thomas sydd ar fin ymddeol wedi pum mlynedd a deugain — ie, pedwar deg pump — o wasanaeth di-dor a chwbl ymroddgar i ardal Llanrug.

Wedi ei hadnabod 'dros y cownter' am flynyddoedd lawer, pleser o'r mwyaf oedd cael noson o ymddiddan gyda'r foneddiges hynaws yma a hynny yn ei parlwr ffrynt y tro yma.

Wedi ei geni a'i mhagu ym

Mrynau Fawnog, Llanrug daeth Miss Thomas i'r Post yn 1954 i gydweithio yn hapus iawn â Mary Ellen Jones, pan oedd Frank Pritchard yn Bostfeistr. Dyma cyfnod pan oedd pump o bostmyn yn Llanrug yn didoli a dosbarthu'r llythyrau am chwech o'r gloch y bore. Bydd llawer o drigolion hŷn yr ardal yn cofio Nel Cae Glas, 3 Rhos Rhug (mam Cledwyn ac Emlyn); Megan Pritchard, Snowdon View (a fyddai'n dosbarthu yng Ngheunant), a Nowie Orient Cottage a oedd, yn ei amser sbâr, yn arddwr heb ei ail ac yn arbenigo mewn tyfu begonias a chactws.

Yn dilyn marwolaeth Frank Pritchard (neu 'Frank DM' ar lafar gwlad) yn Chwefror 1971, fe ddaeth Miss Thomas yn naturiol, ond yn answyddogol, yn Bostfeistres a hynny ar ddiwrnod hanesyddol iawn ym myd arian, sef y dydd Llun hwnnw yn Chwefror 1971 pan gychwynnodd cylchrediad arian degol. Yn Ebrill y flwyddyn honno fe'i penodwyd yn Bostfeistres. Swyddfa 'lock-up' oedd y Post bryd hynny hyd nes y daeth yn bosibl i Miss Thomas a'i mham symud yno i fyw yn 1976.

Yn gadarn a chwbl ymroddgar i'w swydd fe welodd Beryl genedlaethau o deuluoedd Llanrug yn datblygu a hithau ei hun rywfodd yn heneiddio dim. Gwelais hi yn amyneddgar ac yn annwyl iawn gyda'r ffwndrus a'r anghofus gan atgoffa ac eglur unrhyw newidiadau yn y drefn. Chlywais i erioed mohoni yn codi ei llais. Yn wir, byddai'r tawelwch urddasol yn y ciw at y cownter yn adlewyrchiad rywsut o'r sylw a'r parch a gâi pob cwsmer yn ei dro. Gyda'i llygaid yn gwbl agored i'r byd o'i chwmpas gwelodd ac fe sylwodd ar lawer digwyddiad mae'n siŵr a chadwai gyfrinach pawb. Parchai hawl pawb i breifatrwydd a dyna, yn anad dim, a'i gwnaeth mor uchel ei pharch dros y blynyddoedd. Gellir cyffelybu'r rhan yma o'i chymeriad gyda disgrifiad T. Rowland Hughes o'r 'Hen Weinidog':

*Ni regodd fyd,
a welai weithiau fel pe'n stremp i gyd.*

Cofiaf yn ystod y chwedegau gario'r post o Ysgol Brynrefail a hynny'n hwyr y prynhawn — bron ar amser cau — gyda llwythi o lythyrau ac ati i'w pwyso a'u stampio a hithau yn eu derbyn yn gwbl drefnus a hwyliog fel petai ond deg o gloch

parhad ar dudalen 2

ECO'R WYDDFA

Rhif 260
HYDREF 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, HYDREF 28
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, HYDREF 18
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A
TACHWEDD RHAGFYR	HYDREF 18 TACHWEDD 20	HYDREF 28 RHAGFYR 2	LLANBERIS CAEATHRO	Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Hanes Dwy Chwarel

Annwyl Olygydd,

A wnewch chi ganiatáu i mi holi
darllenwyr *Eco'r Wyddfa* ynglŷn â
dwy hen chwarel yng nghyffiniau
Deiniolen sydd o ddiddordeb i mi?

Mae'r ddwy i'w gweld i'r dwyrain
o'r llwybr troed sy'n cychwyn ger
Ffridd Uchaf, Deiniolen ac yn arwain
i gyfeiriad Rhiwlas. Ar ben uchaf yr
olaf o'r caeau, gerllaw adfeilion
Bwlch Cae-mawr, y gwelir y ddwy
chwarel — eu cyfeirnod grid yw
SH585641 ac SH586641. Dylid
pwysleisio nad wyf yn cyfeirio at
Chwarel Robin Jones — nid ydynt yn
rhan o'r chwarel honno sydd yn
SH598645 a thipyn uwch ar y
llethrau.

Rwyf wedi dod o hyd i dystiolaeth
sydd yn awgrymu bod llechi wedi eu
holtti a'u naddu yn y ddwy chwarel.
Nid safleoedd arbrawf oedd y rhain
ond chwareli cynhyrchiol.

Os oes gan unrhyw un o'ch
darllenwyr wybodaeth am y chwareli
yma byddwn wrth fy modd yn
clywed ganddynt. Croeso iddynt
ysgrifennu ataf neu gallant fy ffonio.

Yn gywir,

ALUN JOHN RICHARDS
Eryri

28 Ffordd Bayswater
Tycoch

ABERTAWA SA2 9HA
Ffôn: (01792) 202575

Apêl am hen luniau o drigolion Gwaun Cwm Brwynog

Annwyl Olygydd,

Gan fy mod yn gobeithio cyhoeddi
cyfrol ar hanes hen deuluoedd
Gwaun Cwm Brwynog a Chapel
Hebron, byddwn yn dra diolchgar os
oes gan rywun yn y fro luniau o rai
o drigolion Cwm Brwynog gynt?
Byddwn yn falch iawn o gael eu
benthyg dros dro i'w cynnwys o
bosib yn y llyfr.

Yn ddiolchgar a gobeithiol,

ROL WILLIAMS
5 Pant y Waun

Waunfawr

Ffôn: (01286) 650457

CANOLFAN FFITRWYDD P.C. Hen Safle Marconi Waunfawr

(01286) 650011

- ★ OFFER RHAGOROL ★
- ★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
- ★ CAWODYDD ★
- ★ TALU WRTH Y DRWS ★
- ★ DIM ANGEN CADW LLE ★

ORIAU AGOR:

11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau

PRISIAU:

1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

AWDUR PRYSUR

parhad o dudalen 1

hwylus yn Saesneg a Chymraeg.
Roedd Tasnim yn gwerthfawrogi
ac yn deall anghenion naturiol y
cleifion Cymraeg i gael trafod eu
pryderon ynghylch eu hiechyd yn
eu hiaith gyntaf ac roedd wrthi'n
llunio ei llyfryn bach dwyieithog
ei hun o'r geiriau, y brawddegau
a'r cwestiynau a glywai amlaf. A
oedd rhagor o feddygon, nyrsys,
a gofalyddion eraill, meddyliodd
Mr Hughes, wrthi'n ymlafnio ar
eu pennau eu hunain fel hyn?
Faint mwy, tybed, o weld nad
oeddent yn llwyddo i gwrdd ag
anghenion sylfaenol eu cleifion,
a fyddai'n falch o gael cymorth
parod i'w galluogi i gyfathrebu
mor effeithiol ag y bo modd gyda
chleifion sydd â'r Gymraeg yn
iaith gyntaf iddynt — yr henoed
a'r ifanc yn arbennig felly?

Cymorth i rai dan Hyfforddiant

Bydd y llyfryn hwn o gymorth i
gyflwyno i weithwyr proffesiynol
ym maes iechedd rai o'r
cwestiynau a'r gosodiadau a
ddefnyddir amlaf mewn
sefyllfaoedd gofal. Fe all hefyd
fod o fudd arbennig i
hyfforddwyr er mwyn iddynt
gyflwyno i'w myfyrwyr ar gyrsiau
hyfforddi ac mewn sesiynau
hyfforddiant mewn-swydd rai o'r
anghenion mwyaf sylfaenol o ran
cyfathrebu â chleifion â'r
Gymraeg yn famiaith iddynt.

Mynnwch eich copi

Mae *Gair i Glaf*, sef teitl
Cymraeg yr *English-Welsh*
Phrasebook for Health Care
Professionals, yn defnyddio
tafodiaith ardaloedd gogleddol
Cymru. Bydd gweithwyr iechedd
mewn rhannau eraill o Gymru
yn siŵr o allu addasu'r cynnwys
i weddu eu tafodiaith arbennig
eu hunain. Mae copïau o'r
llyfryn ar werth am £2.50 mewn
rhai siopau llyfrau ac ysbytai ond
gellir archebu copïau'n union-
gyrchol oddi wrth yr awdur drwy
anfon £3.00 (i gynnwys post a
phacio) i Bryn Ogwen, Bethel,
Caernarfon, Gwynedd LL55
3AA.

YMDDEOLIAD

parhad o dudalen 1

y bore. Cawn fy siarsio ganddi i
beidio â gwario'r newid yn Siop
Wilson ar fy ffordd adref!

Oedd, roedd ganddi ffordd
gyda ni'r plant, ac mae'r ddawn
honno wedi parhau hyd heddiw.
Sgwrsio gyda'r plant, meddai,
fydd hi yn ei golli fwyaf wedi iddi
ymddeol — yn ogystal â
chymdogaeth dda pobl Llanrug.

Bydd Miss Thomas yn
ymddeol ar 3 Tachwedd ar ôl
sgwario'r llyfrau am y tro olaf.

Mawr yw diolch a
gwerthfawrogiad pobl yr ardal o'i
gwasanaeth a dymunwn iechedd a
dedwyddwch iddi i'r dyfodol yn
ei chartref newydd yng
Nghaernarfon.

AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CADEIRIAU'R CADEIRYDD

Mae gan Meurig Parry, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Sefydliad Coffa Llanrug dros gant o gadeiriau i eistedd ynddynt, ond nid yw yn barddoni! Ac mae gan Ysgrifennydd yr 'Institiwt', Dafydd Whiteside Thomas, lu o fyrddau i lunio'r cofnodion arnynt.

Cyflwynwyd y dodrefn, sy'n cynnwys dros 100 o gadeiriau, stolion, meinciau a byrddau i'r Sefydliad Coffa gan James McAllister, Cyfarwyddwr Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg, Llanrug, un o brif fusnesau'r pentref.

Meddai Meurig Parry, 'Cawsom y dodrefn yn rhodd yn dilyn apêl am gymorth i addasu'r Sefydliad Coffa. Ein bwriad yw creu man cyfarfod hwylus a chlyd i holl grwpiau a chymdeithasau'r pentref.'


Mae'r pentref cyfan yn ddiolchgar i Barc Gwyliau Brynteg a'u Cyfarwyddwr, James McAllister am y cymorth hael. Daw ar ben rhodd ariannol o

£2,000 yn gynharach eleni tuag at y prosiect cymunedol.

'Mae'r cadeiriau a'r stolion glas a du mewn cyflwr da. Rwan bydd pawb sy'n mynychu digwyddiadau yn y Sefydliad Coffa yn medru eistedd yn gyfforddus. Rhoddir y meinciau o amgylch ein neuadd snwcer newydd, lle mae'n tîm snwcer llwyddiannus dan 17 oed yn cwrdd i ymarfer.'

Dywedodd James McAllister o Barc Cartrefi Gwyliau Brynteg, 'Rydym yn falch o fedru helpu prosiect y Sefydliad Coffa. Oherwydd ein gwelliant £2 filiwn ni ein hunain nid oedd angen y dodrefn bellach yn y parc.'

Ychwanegodd, 'Mae pobl Llanrug wedi ymateb yn wych i'r apêl am arian i adnewyddu'r Sefydliad Coffa. Eisoes mae mwy na thri chwarter y nod o £20,000 wedi ei gasglu. Fel un o'r prif fusnesau a chyflogwyr yn yr ardal, rydym yn falch o fedru cefnogi'r ymdrechion.'



James McAllister yn trosglwyddo'r dodrefn i Meurig Parry (Cadeirydd) a Goronwy Hughes (Trysorydd) tu allan i adeilad Celtic Windows yn Hen Ysgol Glanmoelyn. Diolch i garedigrwydd Celtic Windows, caiff y dodrefn eu storio yno nes cwblheir gwelliannau'r Institiwt.

HWB I GYMDEITHAS

Canolfan grefft, grŵp datblygu busnes, gwell cludiant cyhoeddus, cymorth ar gyfer cynllun twristiaeth graddfa fach a defnydd creadigol o'r llyn lleol, oedd ymysg y syniadau a roddwyd ymaen i adfywio cymdeithas Dyffryn Gwyrfaï uchaf, mewn cyfarfod llawn yng Nghanolfan Rhyd Ddu ar nos Lun, 20 Medi.

Dywedodd Eurig Wyn ASE, a gadeiriodd y cyfarfod: 'Daeth cyhoedd Rhyd Ddu a Betws Garmon i'r cyfarfod mewn

niferoedd, ac roedd hi'n arwydd calonogol bod y gymdeithas yn benderfynol i droi'r ardal o gwmpas a rhoi hwb i'w phosibiliadau.'

Wrth ddiolch i Eirian Jones, Swyddof Lleol Adfywio Gwyrfaï a Heulwen Huws, Clerc y Cyngor am drefnu'r cyfarfod, ychwanegodd Eurig Wyn mai'r cam nesaf fydd i ddosbarthu holiadur yn darparu sylfaen ar gyfer tynnu arian Amcan 1 Ewropeaidd i lawr.

TeleCabana

Mae'r TeleCabana yn dod i'r rdd unwaith eto. Fe fydd yn cartrefu mewn sawl lleoliad yng Ngwynedd rhwng Hydref a Rhagfyr. Unwaith eto fe fydd tiwtoriaid proffesiynol yn cynnig hyfforddiant cyfrifiadurol i ffermwyr a'u teuluoedd yn rhad ac am ddim.

Cynigir amryw o sesiynau megis Bas Data, Taenlenni, Prosesu Geiriau, Cyflwyniad i'r We, Agridata, Rhaglenni Llaeth a 'Desk Top Publishing'. I'r rhai ohonoch sydd heb gyffwrdd mewn cyfrifiadur erioed, mae sesiwn cyflwyno ar gael sydd yn arbennig ar gyfer pobl heb unrhyw wybodaeth gyfrifiadurol o gwbl.


Os yn cadw llyfrau'r fferm, mae'r sesiwn Cyfrifon yn esbonio sustem 'Quicken' o gadw llyfrau ar gyfrifiadur.

I'r rhai ohonoch sydd yn defnyddio rhaglenni SAGE neu Agridata — bwriadwn gynnal sesiynau cwestiwn ac ateb i geisio datrys rhai o'r problemau cyffredin sy'n codi wrth ddefnyddio'r rhaglenni hyn.

Os am farchnata cynnyrch neu wyliau fferm tros y we — cynigiwn sesiwn 'Creu Tudalen ar y We' sydd yn dangos i chi sut mae modd creu tudalen eich hun ar y we fel cyfrwng hysbysebu, marchnata neu ledaenu gwybodaeth.

Dyma'r tro olaf y bydd y TeleCabana yn gallu cynnig cyrsiau am ddim i amaethwyr Cymru, felly manteisiwch a chysylltwch heddiw â

Carol Thomas, CYMAD, ar (01766) 512300.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**



**GWERTHU
- TRWSIO**

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig
Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau
Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Ffôn: (01286) 870253

CHWILOTA

Chwe Milflwydd Mewn Wythnos



Oherwydd ei bod bron yn amhosibl croesi i Fôn y dyddiau hyn, beth am fynd yno cyn bod pont o unrhyw fath yn bod. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf bu'n bosibl i mi ymweld â dau lecyn hanesyddol ym Môn yng nghwmni plant ysgol Llanfairpwll. Mae claddfa Bryn Celli Ddu yn un o'r safleoedd cyn-hanes enwocaf yng Nghymru, ac yn dyddio'n ôl i'r drydedd milflwydd cyn Crist, mae CADW wedi sicrhau fod llwybr troed yn arwain yno o'r ffordd, a'r tir o'i amgylch wedi ei ffensio a'i warchod.

Yr hyn sy'n arbenig am y safle yw'r ffaith ei fod yn cynrychioli olion dau gyfnod mewn hanes, ac o bosibl ddau fath o grefydd. Mae'r llwyfan gwreiddiol o bosibl yn cynrychioli safle ble cynhelid seremonïau crefyddol (nid o reidrwydd yn gysylltiedig â marwolaeth), ac yn perthyn i bobloedd cyn-hanes a ddaeth yn wreiddiol o ddwyrain Lloegr.

Mae'n bosibl i'r safle gael ei adael wedyn am ganrifoedd cyn i bobl eraill gyrraedd yr ardal, ac i'r safle gael ei ail gysegru fel 'tae. Dyma gyfnod y gell gladdu o feini a phridd. Diflannodd llawer o'r llwyfan gwreiddiol pan adeiladwyd y gell; a hyn efallai yn arwyddocaol wrth i'r grefydd newydd ddisodli'r hen. (Dyna'n union ddigwyddodd wrth gwrs pan ddaeth Cristnogaeth i'r wlad hon, gan sefydlu 'eglwysi' ar safleoedd paganaidd.)

Yr ail safle i ni ymweld â hi oedd Barclodiad y Gawres, ar yr arfordir ym mhlwyf Llanfaelog. Dyma eto gell gladdu, ond un wahanol iawn i Fryn Celli Ddu. Mae'n dyddio o bosibl yn gynharach na'r trydydd milflwydd cyn Crist, ac yn perthyn o ran cynllun i gladdfeydd sydd i'w canfod yn nyffryn y Boyne yn Iwerddon. Mae llwybr cul yn arwain i mewn, a'r celloedd claddu yn y canol ar ffurf croes, a'r cyfan wedi eu gorchuddio â cherrig a phridd. Mae'r meini oddi mewn wedi eu haddurno â phatrwm o gylchoedd a llinellau igam-ogam.

Pan gloddiwyd y safle yn 1952-53 darganfuwyd olion defod gladdu od iawn. Mae'n

ymddangos fod tân yn cael ei gynneu oddi fewn i'r gladdfa, a hwnnw'n cael ei ddiffodd drwy dywallt drosto lobsgows o fân anifeiliaid, ymlusgiaid a physgod. Roedd y cyfan wedyn yn cael ei orchuddio â chregyn. Does dim eglurhad am y ddefod hon.

Ddiwrnod wedi'r ymweliad hwn, roeddwn wedi neidio mewn amser i gyfnod y Rhufeiniaid yng Nghymru, ac yn tywys disgyblion ysgol Nefyn o amgylch Caer Rufeinig Segontium, a'r plant yn mwynhau bod yn dditectifs hanesyddol wrth geisio darganfod pwrpas rhai o'r darnau crochenwaith a ddarganfuwyd ar y safle.

A bron i ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach eto, dyma ddarllenwyr y golofn yn parhau i geisio olrhain hanes pobloedd a digwyddiadau'r fro hon. A'r hyn sy'n synnu rhywun gydol yr amser yw'r ffaith fod pobl dros gyfnod o bron i chwe milflwydd wedi symud cymaint. Gwyddelod cynnar yn hwylio i Farclodiad y Gawres i sefydlu cell gladdu; pobloedd o ddwyrain Lloegr yn symud i Fryn Celli Ddu; milwyr Rhufeinig yn dod o wahanol rannau o Ewrop i Gaer Saint; a phobl o fro'r 'Eco' yn sefydlu mewn gwahanol rannau o Brydain, Ewrop, America a gweddill y byd.

Ac er yr holl wybodaeth am gyfnod mor hir o amser, fod cymaint o hanes ein bro ein hunain yn parhau'n ddirgelwch. **Teulu Hugh Parry yn Kellogg** Roeddwn wrthi'n ysgrifennu'r golofn pan ddaeth galwad ffôn o Ddolgarrag, a H. Parry Jones yn

adrodd na dderbyniodd unrhyw wybodaeth am y teulu ers i'r cais ymddangos yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco'. Mae gen i beth gwybodaeth, ond nid gan aelodau'r teulu y derbyniais ef, felly, nid yw'n bosibl ei ail adrodd ar hyn o bryd. Byddwn yn falch pe bai rhai o'r teulu sy'n parhau i fyw yn ardal yr 'Eco' ac yn y cyffiniau, yn cysylltu â mi.

Teulu Tan y Foty, Clegir

Yn yr archifdy yng Nghaernarfon y cyfarfyddais â Dhamma Colwell o Lundain, oedd yn treulio ychydig ddyddiau yn yr ardal yn ceisio olrhain hanes ei theulu. Ganed nain Dhamma yn Tan y Foty, un o chwech o blant Thomas a Mary Williams. Deuai'r tad yn wreiddiol o blwy Llanbeblig, a'r fam o Ynys Manaw! Enwau'r plant oedd Mary, John, Catherine, Harriet (sef nain Dhamma), Caradog a Julia Rosa.

Prynwyd lês Tan y Foty gan Thomas Williams tua 1871-72 ar farwolaeth y tenantiaid cynt, ac yr oedd y teulu'n byw yno yn

ystod cyfrifiad 1881. Erbyn cyfrifiad 1891 roeddent wedi gadael ardal y Clegir, ac yn byw yn Glyn Peris, gwesty ar allt Chwarel Glyn. Chwarelwr oedd Thomas Williams yn parhau i fod yn ôl ei alwedigaeth, ond rhestrir Harriet fel 'barmaid'. Roedd y teulu cyfan yn cael eu disgrifio fel rhai'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg (o bosibl oherwydd y fam), yn wahanol i nifer helaeth o'u cymdogion nad oeddent yn rhugl yn yr iaith fain.

Symudodd Harriet a Catherine i Loegr a bu'r ddwy yn gweithio ac yn berchnogion yn ddiweddarach ar westai a thai tafarn yn Llundain. Ond beth am weddill y teulu? Os oes rhywun ag unrhyw wybodaeth am Mary, John, Caradog a Julia Rose, byddai Dhamma yn falch o gael eu hanes.

Cysylltwch â mi os oes unrhyw un yn gwybod hanes y teulu.

Anfonwch unrhyw sylw i Dafydd Whiteside Thomas, 'Bron y Nant', Llanrug, Caernarfon. (01286 673515).



SLIM CHWIM MEWN DIM! heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!

ffonlwch (01286) 830609

— TENEUWCH —

SLIM CHWIM MEWN DIM!



**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Blodau ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewis da o Lysiau Fferm
- ★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

Un funud fach . . .

GOBAITH

Yfory bydd gêm gyntaf Cwpan Rygbi'r Byd. Flwyddyn yn ôl doedd gan Gymru ddim gobaith caneri. Ond bellach mae gobaith 'da Henry. Dros y flwyddyn ddiwethaf trodd yr anobaith yn obaith o beidio cael ein chwalu, yn obaith o wneud yn dda, a hyd yn oed yn obaith o ennill y gystadleuaeth.

Mae'r gobaith newydd wedi ei seilio ar bethau fel buddugoliaethau yn erbyn Lloegr, Ffrainc a De Affrica; a chicio Neil Jenkins; a chyfraniad chwaraewyr a drodd yn Gymry dros nos; ac wrth gws, ddylanwad yr hyfforddwr Graham Henry. Bu'r misoedd diwethaf yn hynod gyffrous a chafwyd buddugoliaethau mawr, ond amser a ddengys beth ddaw o'r gobeithion newydd dros y pum wythnos nesaf.

Gallai holl obeithion Cymru chwalu. Beth petai'r timau eraill wedi gwella'n sylweddol? Beth petai Jenkins yn cicio'n gam? Beth petai dau neu dri o'r hogia'n cael eu hanafu? Does dim yn sicr, waeth pa mor gryf yw'r gobeithion cyn y gêm gyntaf. Ond pob hwyl i'r tîm, a gobeithio y gwelwn ni Gymro'n codi'r cwpan ddechrau mis Tachwedd.

Mae'r Ffydd Gristnogol yn cynnig gobaith i ni. Gobaith am y nefoedd a'r bywyd tragwyddol; gobaith am gael cwmni Duw am byth a gweld Iesu Grist wyneb yn wyneb, gobaith am fywyd heb boen na galar o fath yn y byd. Wrth gredu yn Iesu Grist y cawn ni'r gobaith hwn. Mae'r Cristion yn gallu edrych ymlaen yn hyderus at brofi'r bywyd newydd hwn.

Ac yn wahanol i'n gobeithion am ein tîm rygbi, does dim amheuaeth nac ansicrwydd ynglŷn â'r gobaith Cristnogol. Mae Iesu Grist ei hun ar ein hochor ni. Mae ef eisoes wedi curo'r gelyn. Mae wedi concro marwolaeth wrth ddod yn ôl o'r bedd. Ac mae'n gwbl sicr y bydd pawb sy'n credu ynddo yn cyrraedd y nefoedd. Chaiff neb sy'n gobeithio yn Hwn ei siomi.

JOHN PRITCHARD

Dawnswyr Caernarfon



Bu'r dawnswyr yn llwyddiannus eto yn cael ail yng nghystadleuaeth Tlws Lois Blake yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Mae llawer o'r aelodau yn huanu o fro Eco'r Wyddfa ac eraill wedi mewnfudo yma. Croeso i ymuno — maent yn cyfarfod bob nos Iau yn Yr Aelwyd, Stryd yr Eglwys, Caernarfon am 7.30 pm. Ffordd ddymunol o gadw'n heini!

ATODIAD LLANBERIS

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS. Cyfarfu'r Cyngor yn Angorfa nos Iau, 16 o Fedi dan gadeiryddaieth y Cyngorydd Bert Parry. Croesawyd y Cyngorydd Derek Jones, Maes Padarn i'r Cyngor fel aelod newydd yn cynrychioli Ward Llanberis. Estynnwyd croeso hefyd i Mr Dafydd Whiteside Thomas i'w gyfarfod cyntaf fel Clerc y Cyngor.

Ystyriwyd dau gais cynlunio. Nid oedd gwrthwynebiad i'r estyniad arfaethedig yn Rallt Goch, Llanberis. Doedd dim gwrthwynebiad chwaith i'r cais i godi tŷ a garej ar dir tu cefn i'r Orsaf Heddlu ym Maes Padarn, ar yr amod nad oedd yn effeithio ar breifatrwydd yr hen dŷ heddlu.

Bydd is-bwyllgor yn cyfarfod yn fuan i drafod lleu'r llwybr a mân atgyweiriadau eraill ym Mynwent Nant Peris. Bydd camau hefyd yn cael eu cymryd i geisio datrys problem cwningod yn y fynwent.

Derbyniwyd atebion gan y Cyngor Sir ar Parc Cenedlaethol ynglŷn â chynnal a chadw nifer o lwybrau cyhoeddus. Mewn

ymateb i gŵyn y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r defnydd o'r term 'Telegraph Bridleway' am lwybr Maesgwm ar daflenni beicio, cytunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddileu'r term o'u cyhoeddiadau yn y dyfodol.

Yn dilyn cais am gymorth ariannol i osod arwydd 'Gwarchod Cymdogol' ger York Terrace, penderfynwyd holi'r awdurdod perthnasol ynglŷn â'r nifer o

gynlluniau Gwarchod Cymdogol sy'n bodoli ym mhentrefi Llanberis a Nant Peris.

Cafwyd trafodaeth bellach ar safle'r 'Lle Troi' yng Nghae Perthi, Nant Peris a phenderfynwyd cysylltu â'r holl bersonau perthnasol er mwyn symud ymlaen i ledu'r safle.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn Angorfa nos Iau, 21 Hydref.

CYFEILLION YSBYTY GWYNEDD

CINIO CAWS A CHAWL

i'w gynnal yn y

Ganolfan Esgobaethol

(Stryd Waterloo, Bangor)

ar

HYDREF 22

o 12 o'r gloch ymlaen

Tocyn: £2.00

Elw tuag at:

Ddolenni Clywed yn yr adrannau cyhoeddus
yn Ysbyty Gwynedd

AM BRYDAU
TSINEAIDD BLASUS
I'W BWYTA GARTREF



LAKESIDE
CHINESE TAKEAWAY

47 STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 871840

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n daith faith i Gernyw. Taith deg awr mewn trên. Byddwn, mi fyddwn i wedi medru hedfan i San Francisco neu Vancouver o fewn yr un amser. Dwi wedi teithio i Gernyw sawl tro o'r blaen gyda thripiâu o fro'r Eco ac aros mewn lleoedd delfrydol fel Newquay, St. Ives a Falmouth.

Ond trip gwahanol oedd hwn ddechrau'r mis yma. Mynd yno roeddwn i i gynrychioli Gorsedd y Beirdd, gyda'r Arwyddfardd Delme Bro Myrddin, ar achlysur seremoni flynyddol *Gorseth Kernow*. Eleni fe gynhaliwyd yr ŵyl yn nhref Hayle, heb fod ymhell o St. Ives.

Does 'na ddim meini yng nghylch Gorseth Kernow, dim ond llwyfan helaeth ar ochr y cylch yn hytrach na Maen Llog. Roedd sedd i Delme a minnau ar y llwyfan gyda'r ddau gynrychiolydd o Lydaw. Roedd hi'n gythreulig o boeth — roeddem ni yn llythrennol yn 'wyneb haul, llygad goleuni' (*howl lagas golowni*). Roedd hwn yn achlysur arbennig oherwydd, am y tro cyntaf erioed, merch oedd yr Archdderwydd (*Barth Mur*) neu Bardd Mawr fel y cyfeirir at y swydd yng Ngorsedd Cernyw. Ia, Ann Trevenen Jenkin fydd *Barth Mur* Gorsedd Cernyw am y tair blynedd nesaf. Pwy fydd y ferch gyntaf i fod yn Archdderwydd Cymru ys gwn i? Fe ddaw y dydd.

Mae seremoni'r orsedd yn hynod o debyg i'n seremonïau ni. Caniad (ansoniarus braidd) y Corn Gwlad. Y Bardd Mawr yn galw deirgwaith am heddwch. Cydadrodd Gweddi'r Orsedd ac, i'r sawl ohonoch sy'n gyfarwydd â'n Gweddi'r Orsedd ni, fe sylwch mor debyg yw *Pysadow an Orseth* Cernyw:

*Rho o Ddew, dha Wyth
Hag yn Gwyth, Nerth,
Hag yn Nerth, Skyans,
Hag yn Skyans, Gothvos,
Hag yn Gothvos, Gothvos an Ewn
Hag yn Gothvos an Ewn, y Gara
Hag yn Gara, Cara pup Bewnans,
Hag yn pup Bewnans, Cara Dew,
Dew ha pup-oll Dader.*

Ceir dawns flodau, i'r un miwsig yn hollol a'n dawns flodau ni, ac yna cyflwyno'r

flodeued o ffrwythau'r maes gan ferch ifanc a elwir yng Ngorsedd Cernyw yn Arglwyddes Cemyw.

Derbyniwyd 33 o aelodau newydd i'r Orsedd, 15 wedi llwyddo mewn arholiad. Roedd eraill yn cael eu derbyn am eu cyfraniad i'w hardaloedd yng Nghernyw.

Rhodddwyd cymeradwyaeth arbennig i un Julian Jeffrey a oedd wedi ennill tair medal aur yn y Gemau Olympaidd arbennig i rai dan anfantais, yn America eleni. Cyflwynwyd tlysau i enillwyr gwahanol gystadlaethau yn ymwneud â'r Gernyweg, fel traethodau, storïau, barddoniaeth ac arlunio. Roedd arddangosfa o'r gweithgarwch yma i'w weld mewn pabell ar y maes, ynghyd â sawl papell yn gwerthu llyfrau yn ymwneud â Chernyw a'i thraddodiadau.

Canwyd emyn i gofio am y rhai a fu farw. Diddorol sylwi fod y Brenin Arthur yn cael sylw mawr yng Ngorsedd Cernyw. Wrth gymryd y llw i fod yn deyrngar i Gernyw mae'r holl orseddogion yn cyhoeddi: 'Nyns yn marow *Myghtern Arthur*', sef 'Nid marw Brenin Arthur'. I gloi'r seremoni fe ganwyd '*Bro Goth Agan Tasow*' — ia, Hen Wlad fy Nhadau. Roeddwn i hyd yn oed yn gyfarwydd a'r dôn hon!

Te i ddilyn, gan gynnwys pastai Cernyw, a chyngerdd yn yr hwyr.

Yna, brynhawn Sul, gwasanaeth crefyddol yn *Eglas Methodyst* Hayle — pob gair yn y Gernyweg, a phob emyn a'r bregeth hefyd. Synnais fod cymaint o eiriau mor gyfarwydd i mi, e.e. '*An arluth ow Bugel ef u*' yw '*Yr Arglwydd yw fy Mugail*'. '*Pregeth*' yw pregeth, a

'*An Padeg Agan Arluth*' yw Gweddi'r Arglwydd.

Roedd dros 250 o feirdd yn bresennol yn y seremoni — y nifer mwyaf fu erioed. Tua 500 sy'n gallu siarad Cernyweg ond mae nifer y dysgwyr yn cynyddu.

Fel y dywedodd y *Barth Mur* yn ei hanerchiad: '*Gobeithiaf y*

bydd ichwi siarad dros Gernyw ar bob achlysur, mae'n ddyletswydd arnoch i gefnogi'r iaith a'i thraddodiadau. Nid Lloegr yw Cernyw, a fydd hi byth, waeth beth ddywed adrannau'r llywodraeth.'

Ia, penwythnos ddifyr iawn — a deng awr arall o daith yn y trên yn ôl o Gernyw i Gymru.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

DIOLCH. Dymuna Gwenlli Williams, 5 Pant y Waun ddiolch yn fawr i'w theulu a chyfeillion am yr ymweliadau, cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Caryl Lois Wood, Pen Rhiw ar lwyddo gydag anrhydedd yn arholiad gradd 1, ffidil. **GENEDIGAETH.** Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym M. Jones, Bro Waun ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd mab bychan i'w mab David a Nia ei wraig.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Karen Parry, 4 Bro Waun ar ei dyweddïad â Mark o Fethel.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs W. Evans, Lleifior ar gyrraedd ei 80 mlwydd oed.

Dathlu cyrraedd ei 90 oed y bu Mrs Ovary, Pant Waun yn ystod yr haf a Mrs M. Owen, Tref Eilian a gu'n dathlu cyrraedd ei 94 mlwydd oed. **BEDYDD.** Gwnes gamgymeriad yn y rhifyn diwethaf ac ymddiheuraf am hynny. Yng ngwasanaeth yr Eglwys y bedyddiwyd merch fach Sian a Graham, Stad Bod Hyfryd. Yng Nghapel Croesywaun, gyda'r Parchg Dafydd Hughes yn gweinyddu, y bedyddiwyd Dafydd Llwyd, mab bychan Gari a Nia Griffith, Stad Tŷ Hen. Gobeithio y caf faddeuant am y camgymeriad.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Alma Jones, Tan y Fron yn ei phrofedigaeth o golli ei mham yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIDADAU i Heddu Gwynedd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21ain yn ystod yr haf ac ar ei llwyddiant yn yr arholiadau gradd. **MERCHED Y WAWR.** Mae'r gangen wedi ailddechrau cyfarfod yn y Ganolfan. Estynnir croeso mawr i aelodau newydd i ymaelodi. Os gwyddoch am rywun sy'n dysgu Cymraeg cofiwch ddweud wrthynt am y gangen leol — mae croeso iddynt ddod atom i wella eu Cymraeg a mwynhau y cyfarfodydd diddorol. **YN GWELLA.** Da deall fod Mrs Southworth wedi gwella digon i gael dod o'r ysbyty. Gobeithiwn yn fawr y bydd yn cryfhau bob dydd.

Anfonwn ein cofion at Sion Jones, Penrhos sydd wedi syrthio a thorri ei fraich.

ADRAN YR URDD. Bydd cyfarfodydd yr Urdd yn ailgychwyn nos Fercher, Hydref 6, yn y Ganolfan am 6.30 p.m. Croeso i unrhyw blentyn sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 3, 4, 5 neu 6 yn yr ysgol gynradd. Rydym yn gobeithio cynnig rhaglen lawn a diddorol o weithgareddau. *Mae angen arweinydd — os oes rhywun eisiau mwy o fanylion cysylltwch â Delyth ar 650788.*

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn y Ganolfan am 7.30 pm nos Lun, 11 Hydref; sef noson lawen draddodiadol gyda Mr Gareth Jones, Llanberis a'i gyfeillion. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math o waith trydanol a Larwmaw Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol
LLANBERIS

Ffôn: (01286) 871680



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

THE PANNIER 50 STRYD FAWR LLANBERIS

Ffôn: 870301

DEWCH ATOM AM
FRECHDANAU A
BYRBRYDAU FFRES
A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION
DROS Y FFÔN

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

DIOLCHIADAU. Dymuna Dilwyn a Lesley, Llys Elen, Ffordd yr Orsaf ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Lois Ann.

MARWOLAETHAU. Ar 27 Awst bu farw Mr Norman Pritchard, Gwêl Fynydd yn sydyn iawn. Anfonwn ein cydymdeimlad i'w wraig Jean, ei blant a'u teuluoedd.

Wedi gwaeledd hir bu farw Mr Harry Roberts, Rhes Plastirion ddydd Llun, 20 Medi. Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Myfi Roberts, Hefin, Daphne a'r wŷr a'r wyresau bach.

Ym Mhlas Pengwaith ar 17 Medi bu farw Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan gynt, yn 99 oed. Estynnwn ein cofion diffuant i'w phlant, chwiorydd a'r teulu i gyd.

Ar ôl brwydr hir, bu farw Mrs Luned Jones, Hafan Elan. Cydymdeimlwn yn fawr â'r plant i gyd a'u teuluoedd.

Bydd colled fawr i'r pentref ar ôl y cymeriadau lliwgar yma.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Arfon, yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddi hefyd gan nad yw wedi bod mewn iechyd da yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Ceren a Shane, Elan Wen, Ffordd Glanmoelyn ar enedigaeth mab bach, Siôn Elwyn.

GWAELEDD. Mae sawl un yn y pentref yn dioddef o salwch neu anhwylder a dymunwn wellhad buan i bawb. Da yw deall fod Mr Dewi Williams, 7 Stad Minffordd wedi dod adref o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, Hydref 20, bydd cyfarfod cyntaf y tymor o Gangen Llanrug a'r Cylch yng Nghanolfan Gymuned Penisarwaun am 7.30 o'r gloch. Dewi Jones o Ben-y-groes, sy'n awdurdod ar fotaneg Eryri ac awdur llyfr hynod ddiddorol ar *Tywysyddion Eryri*, yw'r gŵr gwadd a bydd yn sôn am 'Y Border Mawr'. Mae croeso cynnes i bawb ddod i'w glywed.

Mary Vaughan Jones fydd yn dod atom nos Fercher, Tachwedd 17. Cynhelir Ffair Nadolig nos Fercher,

Rhagfyr 1. Cofiwch gadw'r dyddiadau'n glir.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn yr ysgol gynradd, nos Fawrth, Medi 14, pryd yr estynnwyd croeso i'r holl aelodau gan y llywydd, Mrs Ann Evans. Llongyfarchwyd Bethanne Williams a Carys Wynne ar eu swyddi newydd; Julie, Nant a Pat — y dair wedi dathlu priodas arian yn ddiweddar; holl ieuenctid yr ardal ar eu llwyddiant yn yr arholiadau yn ystod yr haf; Tim Williams, mab Menna Williams ar ei lwyddiant yn adran ffotograffiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Cydymdeimlwyd â Mair Parry yn ei phrofedigaeth ac anfonwyd cofion at ffyddloniaid y gangen nad oeddent yn gallu bod yn bresennol; anfonwyd cofion arbennig at Mrs Williams, Bod Fair sydd ar hyn o bryd gyda'i merch yn Wrecsam.

'Diwrnod o Waith' oedd testun sgwrs Eryl Roberts, un o aelodau'r gangen; treuliwyd orig ddifys yn gwrando ar Eryl yn adrodd rhai o'i phrofiadau — doniol a difrif — yn ei gwaith fel therapydd galwedigaethol. Yn ystod ei gyrfa mae Eryl wedi gweithio gyda phob oedran, o blant gydag anawsterau dysgu i'r henoed ledled Gwynedd a Môn. Roedd yn amlwg cymaint o bleser rydd ei gwaith iddi. Diolchwyd i Eryl gan Phyllis Ellis.

Derbyniwyd gwahoddiad i aelodau'r gangen fynychu recordiad o 'Pwy 'di Pwy' yn stiwdio Barcud, nos Fercher, Hydref 6; yr enwau i Meirwen Lloyd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

Olwen, Gwenda, Carys a Margaret wnaeth y banded a diolchwyd iddynt gan Myfanwy. Enillwyd y raffl gan Megan Jones.

Am hanner awr wedi saith nos Fercher, Hydref 12, y cynhelir y cyfarfod nesaf. Gwyn Roberts o Hufenfa De Arfon fydd y gwestai a thestun ei sgwrs fydd 'Caws'.

Cynhelir Cymanfa Garolau Merched y Wawr nos Sul, 5 Rhagfyr, yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon am 8 o'r gloch. Dewch yn llw i ganu. **DYMUNIADAU GORAU** i'r plant sydd wedi newid ysgol ac i'r bobl ifanc sydd wedi cychwyn yn y colegau neu mewn swyddi newydd.

YSGOL GYNRADD LLANRUG. Dymunwn yn dda i'r disgyblion hynny sydd wedi cychwyn yn yr Ysgol Uwchradd a rhoddwn groeso i bawb yn ôl atom wedi gwyliau'r haf — yn enwedig i 24 bach sydd gyda ni o'r newydd yn y dosbarth meithrin.

Mae rhai plant wedi symud ysgol, Gareth Ieuan ac Owain Bryn i Langybi ac Emma Louise i'r Felinheli a dymunwn y gorau iddynt hwythau hefyd.

Estynnwn groeso i ddwy athrawes newydd atom, Miss Eleri Jenkins o Aberteifi i Flwyddyn 1 a Miss Rhian Williams i Flwyddyn 3. Hyfryd yw cael llongyfarch Miss Williams ar ei dyweddïad. Croesawn Miss Amranwen Lynch yn ôl atom. Rydym yn falch ei bod wedi gwella ac yn mwynhau ei chwmni unwaith eto yn yr ysgol. Dymuniadau da hefyd i Mr Wyn Griffith ar ei briodas.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DIOLCH. Dymuna swyddogion y Ganolfan ddiolch o galon i Alwena, Cefn Coch am roi ei hamser i dwtio a chwynnu y tu allan i'r Ganolfan.

PLYGU'R ECO. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd i'r Ganolfan i blygu'r Eco. Daeth nifer dda ynghyd — ac yn eu mysg un dyn dewr sydd dros ei bedwar ugain oed. Rhaid hefyd diolch i'r plant ac i Miss Jean Parc Jones am ofalu am rywbeth i'r plant wedi'r plygu. Cwblhawyd y gwaith plygu cyn wyth o'r gloch.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mr Evan Bryn Roberts ar gyrraedd oed arbennig pryd y caiff ei dalu am beidio gweithio! Gobeithio y caiff iechyd (a dim gormod o waith gan Hannah!) i fwynhau ei hun.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i Dafydd John, Eurwen a Nancy ar golli eu mam, sef Mrs Margaret Ellen Jones, 7 Maes Eilian gynt. Yn yr un modd estynnir ein cydymdeimlad i Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr John Peris Roberts. Gobeithio y cewch fel teuluoedd nerth oddi uchod yn eich hiraeth a'ch tristwch. **Y GYMDEITHAS LENYDDOL.** Cynhaliwyd pwyllgor y Gymdeithas yn y Ganolfan ar 9 Medi, ond yn anffodus ni ddaeth ond pedair i'r cyfarfod ac felly daethpwyd i'r penderfyniad nad oedd diddordeb gan yr ardalywyr mewn cael Cymdeithas eleni (am y tymor

Treuliodd plant Blwyddyn 4 a 5 noson yng nghanolfan Rhyd-ddu a chael profiadau difyr a gwerthfawr wrth astudio'r amgylchedd. Diolchwn i Ffion a Lynn, Siân a Nia, o chweched dosbarth Ysgol Brynrefail ac hefyd Mark Porter am gynorthwyo gyda'r teithiau a pharatoi'r prydau bwyd.

LLONGYFARCHIADAU i Michelle Roberts. 6 Tal-y-bont ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Daeth yn ail yn y gystadleuaeth llefaru unigol i rai rhwng 16 a 19 oed ac yn drydydd ar y llefaru o'r Ysgrythur.

DYMUNIADAU DA, a llawer o ddiolch i Mrs Gwenda Roberts sydd wedi cwblhau un mlynedd ar ddeg o wasanaeth yn y Post. Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Edgar Llywelyn Jones sy'n cymeryd drosodd ym mis Tachwedd.

1999-2000). Os bu i rai ohonoch anghofio am y pwyllgor, ac yn dymuno cael cyfarfod eto, a fuasech cystal a gadael i mi wybod cyn gynted ag sy'n bosib.

MARWOLAETH. Bu farw Mrs Margaret Ellen Jones (Maggie), 59 Y Glyn, Caernarfon, yn 86 oed. Bu hi a'i diweddar briod Thomas John Jones (Twm Penlôn) a'r plant David John, Eurwen a Nancy yn byw am nifer o flynyddoedd yn 7 Maes Eilian. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys y Santes Fair Caernarfon ar 12 Awst a gwasanaethwyd gan y Parchg Roger Donaldwon a'r Canon R. Glyndwr Williams — a fu ar un cyfnod yn ficer Eglwys Sant Mair Dinorwig lle bu'r teulu hwn yn ffyddlon iawn cyn iddynt symud i Gaernarfon.

DIOLCH. Dymuna David John, Eurwen a Nancy a'r teulu ddatgan eu diolch am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam. Diolch am y geiriau caredig a'r rhoddion hael gan lu o fro Dinorwig. Fe gasglwyd £600 ac fe'i rhoddwyd i Gronfa Cyfarpar Meddygfa Waunfawr er cof a diolch amdani.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

EISTEDDFOD LLANRUG

Noson Ysgrifennu
Nos Fercher, Hydref 6,
1999
rhwng 5.00 a 7.00 pm
yn Festri Capel y Rhos

Noson Celf a Chreft
Nos Lun, Hydref 11,
1999

Rhwng 6.00 a 6.30 pm
yn yr Ysgol Gynradd

EISTEDDFOD LLANRUG

NOS WENER

HYDREF 15, 1999

am 5.30

yn

**NEUADD YSGOL
BRYNREFAIL**

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Jones, Cilan ddiolch o galon i gymdogion a ffrindiau am eu cyfeillgarwch a'u cymwynasau yn ystod ei anhwylder diweddar.

YR EISTEDDFOD. Cynhelir yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, 6 Tachwedd. Os oes unrhyw un yn dymuno cyflwyno tlws i'r Eisteddfod fe ddylent gysylltu â'r ysgrifenyddes, Mrs Rhian Hughes ar (01248) 670036 cyn diwedd Hydref. Bydd cystadleuaeth newydd eleni, sef cystadleuaeth parti llefaru agored. Gall unrhyw sefydliad, clwb, criw o ffrindiau neu stad gystadlu a'r darn gosod yw 'Y Llwynog' gan R. Williams Parry. Beth am ddod a chriw at ei gilydd ac ymuno yn hwyl y cystadlu. Cofiwch hefyd am gystadleuaeth y sgets sy'n agored i unrhyw rai sy'n hoffi tipyn o sbort a sbri.

LLONGYFARCHIADAU i Aled Roberts, Cefn Gwynt a Llion Thomas ar gael cyfle i chwarae yn nhreialon y tîm cenedlaethol pêl-fasged yn Wrecsam yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Aled ar gael ei ddewis yn aelod o sgwad dan 18 Cymru. Edrychwn ymlaen at ei weld yn cynrychioli ei wlad yn y dyfodol agos.

ENILLWYR CLWB 300 y Neuadd. Mai: £20 Jean Williams, Pen Lôn (2); £10 Dennis Harrison, Bakhita (181); £5 yr un i Ann Mercer, Roslyn (165), Ellis Jones, Caernarfon (27), Alice Jones, Sycharth (70), Gwynfor Ellis, 5 Rhos-lan (74), Glenys Griffiths, Llwyn Eithin (142), Meinir Roberts, Cefn Gwynt (167), Eiriona Williams, 7 Bro Rhos (208), Kathleen Bell, Tŷ Newydd (220). Mehefin: £20 Nia Griffiths, Glan-dŵr (197); £10 Iorwerth Williams, Tan-y-cae (71); £5 yr un i Katherine Jones, Y Ddôl Wen (21), Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135), Elwyn Hughes, Bryn Ogwen (157), Gwyneth Price, Bryn Eglwys (94), Wyn Evans, Parciau Rhos (194), Ceris Williams, Llyfnwy, Tan-y-cae (107), Gwilym Jones, Y Ddôl Wen (13), Nora Parry, 11 Tan-y-buarth (4). Gorffennaf: £20 Medwen Green, Medfyn (188); £10 Jane E. Elis, Glenydd (198); £5 yr un i Aled Fôn Roberts, Cefn-y-gwynt (50), Gwyneth Williams, Llain yr Ardd (65), Joan Ginsberg, 2 Tai Celtic (156), Nora Parry, 11 Tan-y-

buarth (4), Gwyndaf Jones, Tŷ Gwyn (203), Owen Jones, Isfryn (202), Emma Bardsley, Windy Corner (3), Olga Davies, 10 Tan-y-cae (172). Awst: £20 Julie Aston, Llys Awel, Saron (118), £10 Eiriona Williams, 7 Bro Rhos (208); £5 yr un i Wyn Evans, Parciau Rhos (194); Olwen Jones, 5 Stad Eryri (81); Dafydd Jones, 10 Tan-y-buarth (127); Jackie Williams, 1 Post Office Row (150), Iolo Morgan, 7 Tan-y-cae (68); Anew Bell, Tŷ Newydd (219), Ellis Jones, Caernarfon (27), Medwen Green, Medfyn (188). **SBRI'R YSGOL SUL.** Brynhawn Sul, Medi 19, aeth nifer o aelodau Ysgol Sul y Cysegr i Sbrî'r Ysgol Sul yn Ysgol Brynrefail. Cafwyd hwyl yng nghwmni'r cant neu ddau o aelodau Ysgolion Sul eraill Arfon yn cael gweithgareddau chwaraeon, celf a chanu. Cafwyd braw pan frifodd Ffion ar y castell bownsio ond da oedd clywed ei bod yn iawn erbyn dydd Llun.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r gangen yn neuadd yr ysgol nos Fercher, 8 Medi, dan lywyddiaeth Ann Lewis. Croesawyd aelodau hen a newydd yn ôl wedi'r gwyliau a braf oedd gweld nifer o'r aelodau wedi gwella ar ôl anhwylder. Llongyfarchwyd Nancy Williams ar enedigaeth wŷr, a Mair Jones ar briodas ei mab. Llongyfarchwyd plant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau a dymunwyd yn dda iddynt yn y dyfodol. Diolchwyd hefyd i'r rhai a fu'n casglu at Ymchwil y Galon.

Cafwyd noson o adloniant ysgafn yng nghwmni Eleri ac Elen Robinson, Ann Marie Williams a Jonathan Davies a diolchwyd iddynt ar ran y gangen gan Glenys Griffiths. Darparwyd lluniaeth ysgafn i'r aelodau gan y pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Alys Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 13 Hydref, yng nghwmni Meirion McIntyre Huws.

CYMANFA GANU EGLWYS LLANDDEINIOLEN

NOS SUL, HYDREF 3 am 7 p.m.
CÔR YSGOL GYNRADD BETHEL
Arweinydd: Robin Jones
Mynediad £1 — croeso i bawb

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DYMU NIADAU GORAU i Llŷr Morris, Rhos Bryn, a Daniel Owen, Dôl Afon yng Ngholeg Menai.

DIOLCHIADAU. Dymuna Dorothy Jones, Martin, Christopher, Alison, Andrew a Tracy ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth lem o golli priod a thad annwyl a charedig.

Dymuna Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn ar ôl ei damwain.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Myfanwy Roberts, Bod Gwilym ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Sian a Dafydd Roberts, Bwlchgrwnog ar enedigaeth mab, Dafydd Math, brawd bach i Heledd ac Elain.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o dymor y gaeaf yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, Medi 6. Croesawyd pawb gan Mrs Dorothy Jones. Cydymdeimlwyd â rhai o'r aelodau wedi cael profedigaethau yn ddiweddar. Cafwyd gwasanaeth byr a darllenwyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol.

Croesawyd Ms Linda Sorley gan Mrs Jones. Gweinyddes gyda phlant ag anghenion arbennig yw Linda ac wedi treulio tair blynedd mewn ysbyty yn Romania. Trwy gymorth fideo a lluniau dangosodd inni rai o'i phrofiadau gyda'r plant yn yr ysbyty. Mae Linda yn dychwelyd i'r ysbyty yn Romania ym mis Tachwedd ac yn edrych ymlaen i weld y plant unwaith eto.

Gofalwyd am y lluniaeth gan Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt a hwy hefyd a roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Dorothy Jones. Diolchwyd i Linda ac i'r gwesteion gan Mrs Enid Taylor. Terfynwyd y cyfarfod gyda'r Gras. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Hydref 4.

Newyddion Ysgol Cwm-y-glo

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn ysgol arall ac yn falch o gael croesawu un ar ddeg o blant bach newydd tair oed i'r ysgol. Croeso mawr i Hannah, Emma, John,

Dylan, Morus, Patrick, Rebecca Owen, Connor, Rebecca Parry, Aiden a Joe a gobeithio y byddant yn hapus iawn gyda ni.

Mae Amy Marie Williams wedi dod atom o Ysgol Dolbadarn ac wedi setlo'n dda gyda ffrindiau newydd ym Ml.2. Rydym ninnau yn dymuno yn dda i Lloyd sydd wedi ein gadael ac wedi dychwelyd i Lanberis.

Croeso hefyd i Miss Sharon Roberts a Miss Sharon Ellis i ddsbarth y Babanod.

Bydd Miss Samantha Weir o Ysgol Brynrefail yn treulio wythnos o brofiad gwaith gyda ni yn ystod y mis. Gobeithio y bydd yn brofiad gwerthfawr iddi.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Urd gyda noson o gemau gyda rhifau. Diolch i Mrs Jen Roberts am ei threfnu.

Mae gennym apêl eto! Rydym yn casglu ar hyn o bryd — Talebau Daily Post (Class of 2000) a Talebau Safeway — ar gyfer triapiau i ysgolion. Os nad ydych eisoes yn eu casglu i deulu neu ffrindiau, gawn ni ofyn yn garedig i chwi ddod â nhw i ni yn yr ysgol os gwelwch yn dda?

Gallwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chwi fel cymdogaeth am gefnogi ein menter gyda chreision Walkers a Tesco. Buom yn ddigon ffodus i dderbyn gwerth £300 o lyfrau a 3 CD. Felly mae'r holl ymdrech yn talu.

CYMEITHAS RHINI AC
ATHRAWON YSGOL CWM-Y-GLO

SÊL CIST CAR

AR FUARTH YR YSGOL
NOS WENER, 1 HYDREF

Giatau ar agor 3.45 p.m.

Gwerthu 5 - 7 p.m. £4 y car

Bydd nifer o weithgareddau eraill — gemau, paentio wynebau, tombola, rafflau, etc.

(Os bydd tywydd gwlyb bydd byrddau ar gael yn y neuadd)

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Cyngor Cymuned Waunfawr

Cynhaliwyd cyfarfod llawn o'r Cyngor ar 3 Medi 1999.

Croesawyd dau gynrychiolydd o'r 'Welsh Highland Light Railway Ltd' (Mr Tony Smare a Mr Elwyn Jones) a chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Rheilffordd newydd o Gaernarfon i Borthmadog yn gyffredinol a'i heffaith ar Waunfawr yn benodol:

Nawr fod y prosiect wedi cael caniatâd i ddechrau gan yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, mae 'Welsh Highland Light Railway Ltd' (y cwmni sydd yn adeiladu'r rheilffordd i Gwmni Rheilffordd Ffestiniog) wrthi ar hyn o bryd yn ffensio a pharatoi ar gyfer gosod cledrau ar y safle o Dinas i Waunfawr. Lle bynnag mae modd, mae pob agwedd o'r gwaith yn cael ei osod i gontactwyr lleol. Wedi hyn bydd y tir yn cael ei drosglwyddo yn ôl i Gwmni Rheilffordd Ffestiniog, sydd â'r bwriad pendant o redeg trenau i Waunfawr erbyn mis Mai 2000. Cost y rhan yma o'r prosiect yw £2.2m. Wedi hyn y bwriad yw i gwblhau yr hyd o Waunfawr i Rhyd-ddu yn yr un modd erbyn mis Mai 2001, ac i orffen y prosiect drwy redeg trenau i Borthmadog erbyn y flwyddyn 2005.

Bydd gorsaf Waunfawr yn cael ei hadeiladu ar safle yr orsaf wreiddiol, gyda hyd y platform yn cael ei ymestyn, ac oherwydd hyn bydd yr adeilad gwreiddiol yn cael ei ddymchwel a'i ail-adeiladu yn union yr un ffurf. Bydd defnyddwyr y trên yn gallu parcio ceir ym mharc ceir presennol y 'Snowdonia Park Hotel'. Hefyd bydd y bont dros y cledrau yn cael ei hatgyweirio ar gost o £64,000.

Disgwylir i Gwmni Rheilffordd Ffestiniog redeg chwe thrên y dydd i Waunfawr, a byddant yn fodlon cydweithio gyda busnesau lleol drwy adael iddynt, er enghraifft, ddosbarthu taflenni hysbysebu yn yr orsaf ac ar y trenau, a gadael i deithwyr gludo beiciau

ar y trên. Mae'r cwmni wedi sicrhau cyllid o £4.6m i gwblhau y prosiect hyd at Rhyd-ddu, ac maent yn hollol ffyddiog y byddant yn gallu sicrhau grantiau ychwanegol i orffen y gwaith hyd at Borthmadog.

Bydd llwybr cerdded yn cydreded â'r rheilffordd, ond mae'n debyg mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd fydd hyn.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ailedrych ar y sefyllfa o pwy sydd â chyfrifoldeb am ffynnon Pant Gwyn.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Coleg Llandrillo ynglŷn â 'Cronfa "Capacity Building".' Cymorthdal yn defnyddio arian Ewropeaidd yw hwn sydd ar gael i unrhyw grŵp wedi ei sefydlu'n ffurfiol nad yw'n bodoli i wneud elw, ar gyfer unrhyw beth sy'n gwneud y grŵp yn gryfach ac yn fwy gwybodus ac sy'n cynyddu ei botensial i wasanaethu'r gymuned. Gellir cael manylion pellach oddi wrth Glenc y Cyngor neu o Goleg Llandrillo.

Bydd y broblem o gŵn yn maeddu ar hyd y pentref (yn enwedig ger gwersyllfa Ty'n yr Onnen, ac ar y ffordd sy'n arwain o'r siop sgolodion hyd at yr ysgol) yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Nid oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gwrthwynebu i rybudd a roddwyd parthed y bwriad o godi poly telegyfathrebu ar dir ger Bryn Môr, Waunfawr, ac fe ystyrid bod y datblygiad ei hun yn ddatblygiad sydd ddim angen caniatâd o dan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref. Roedd y Cyngor Cymuned wedi datgan gwrthwynebiad i'r datblygiad ar sail difrodi cymeriad yr amgylchedd, ac adroddwyd fod yr un gwrthwynebiadau wedi cael eu gyrru at y cwmni oedd am godi'r polyn, sef 'Orange Personal Communications Services Ltd'.

Mae'r Cyngor am wneud trefniadau i dorri gordyfiant coed ar lwybr rhif 12 (sy'n rhedeg ger stad Dôl Erddi).

Gan nad oedd adroddiad Parc Cenedlaethol Eryri —

'Diwygidadau yn Dilyn Ymchwiliad i Gynllun Lleol Eryri' i'w ganfod yn Llyfrgell Caernarfon, bydd y Cyngor yn gwrthwynebu ei chynnwys hyd nes y bydd copi ar gael i'w weld gan yr aelodau.

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth fudiadau, cymdeithasau, a.y.y.b. yn y cyfarfod nesaf. Dylai pob cais fod yn llaw'r Clerc erbyn 8 Hydref 1999.

Nid yw'r Cyngor yn hollol gyfforddus â syniadau Cyngor Gwynedd ynglŷn â dirprwyo swyddogaethau i'r cynghorau lleol, ac felly yn gwrthwynebu unrhyw argymhellion hyd nes bydd ystyriaeth bellach wedi cael ei roi i'r mater.

Cafwyd rhag-hysbysiad gan CADW: Welsh Historic Monuments, fod 'War Memorial in Waunfawr and Engine House in Garreg Fawr Slate Quarry' wedi cael eu cynnwys yn y rhestrau statudol o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.

Penderfynwyd nad oedd diben cymryd mantais o 'Prosiect Llwybr: Pathway', sy'n hyrwyddo'r Gymdeithas Wybodaeth yng Nghymru Wledig trwy (ymysg pethau eraill) gyfrannu at osod pwyntiau gwybodaeth (cyfrifiadur wedi ei gysylltu i'r We) mewn adeilad cyhoeddus, gan fod cyfleusterau o'r fath i'w cael eisoes yn y pentref yn Antur Waunfawr.

Bydd y Cyngor yn codi gyda Cyngor Gwynedd y mater o arwyddion pren llwybrau cyhoeddus newydd yn cael eu codi ochr yn ochr a'r arwyddion

presennol. Barn y Cyngor yw mai gwastraff arian yw hyn, a byddai wedi ei wario'n well ar gynnal a chadw'r llwybrau neu atgyweirio yr arwyddion presennol.

Bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i Gangen Sefydliad y Merched wrth iddynt blannu bylbiau ar dir y Gofeb i nodi achlysur y Mileniwm.

Bydd y Cyngor yn dwyn sylw Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yr arwydd newydd ar y siop sgolodion yn y pentref gan nad yw, ym marn y Cyngor, yn gweddu i gymeriad y pentref.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, 11 Hydref 1999 am 7.00 p.m. yn Y Ganolfan, Waunfawr.

DRAENOG

Mae'r peirianna golchi dillad yn betha hwylus iawn — ond mae'n nhw'n niwsans os nad ydyn nhw'n gweithio'n iawn. Roedd peiriant gwraig o Faes Padarn wedi torri yn ddiweddar a daeth dyn bach clên yno i'w drwsio. Gwnaeth y dyn ei waith a thalodd hithau'r bil. Ond y diwrnod wedyn, doedd y peiriant ddim yn gweithio eto. Felly dyma ffonio'r dyn eto gan fynnu ei fod o'n dod yn ôl ar unwaith. A sôn am ddwrddio: 'Talu pres mawr iddo fo a'r peiriant ddim yn gweithio wedyn! C'wilydd o beth!' Bu'n rhaid disgwyl am ddiwrnod neu ddau i'r dyn ddod yn ôl... 'A phan ddaw'r cradur yn 'i ôl, thala' i 'run geiniog iddo fo chwaith!' O'r diwedd fe ddaeth y dyn a fuo fo fawr o dro yn datrys y broblem — doedd dim angen motor newydd nag unrhyw ddarn arall chwaith — dim ond rhoi'r swits ymlaen! Druan ohoni, a hithau wedi mynd i gwer(f)yla cymaint.

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE Concern


INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

EISTEDDFOD BENTREF
PENISARWAUN. Nos Iau, 9 Medi daeth nifer dda o drigolion y pentref i'r Neuadd Gymuned i gefnogi Noson Goffi dan ofal Pwyllgor Eisteddfod Bentref Penisarwaun. Yn ogystal â chael paned, sgwrsio, prynu mân nwyddau a thrio'u lwc ar y 'tombola' a'r Raffl, roedd cyfle i brynu Rhaglen a Thestunau yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau i enillwyr y raffl - Llŷr Hughes, Ann Ifans, Betty Evans, Susan Roberts, Janice Jones a Dilys Williams, a llawer o ddiolch i bawb a gefnogodd y noson.

Bydd yr Eisteddfod eleni yn cael ei chynnal yn y Neuadd Gymuned nos Wener, 15 Hydref. Mae sesiynau ymarfer i blant sy'n dymuno cystadlu yn yr Eisteddfod yn cael eu cynnal yn y Neuadd Gymuned bob nos Fawrth a nos Iau rhwng 6 a 7 o'r gloch rhwng hyn a noson yr Eisteddfod. Er tegwch i'r hyfforddwyr a'r plant mae disgwyl i rieni unai aros hefo'u plant neu drefnu bod eu plant dan ofal oedolyn cyfrifol arall.

Os na gawsoch chi gyfle hyd yn hyn i brynu Rhaglen a Thestunau'r Eisteddfod galwch heibio Siop Gron neu Racca, neu mae croeso i chi gysylltu â'r Ysgrifennydd ar 871491.

DYWEDDIAD. Pob dymuniad da i Rebecca Thomas a Dyfed o Gaernarfon ar achlysur hapus eu dyweddian yn ddiweddar.

PRIODAS. Pob bendith i Elizabeth Ann a Jonathan ar eu priodas yn ddiweddar yn Eglwys Santes Helen.

PRIODAS ARIAN.

Llongyfarchiadau i Ann a Dave Paterson ar achlysur eu Priodas Arian yn ddiweddar.

GWELLHAD. Anfonir cofion gorau at bawb sy'n sâl eu hiechyd yn y pentref a gobeithir fod Mrs Alice Thomas a Mrs Ethel Jones yn gwella wedi'u triniaethau yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion at Rhian, Glyn Euron gynt, gan obeithio ei bod yn gwella.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Medi, a'r enillwyr oedd: 1. Dafydd Williams; 2. Eurwyn a Shirley Jones; 3. Mrs A. Thomas.

Daeth nifer dda o oedolion a

phlant ar y daith gerdded llwybrau nos Wener, Medi 17. Roedd y tywydd yn braf ac roedd y plant wrth eu bodd yn datrys y cliwiau ac yn chwilio am wahanol bethau ar y daith. Roedd paned o de arbennig wedi'i pharatoi gan Myrddin Jones a Dafydd Williams yn y Neuadd Gymuned. Yr enillwyr oedd Criw Brynrefail, Criw Bryn Eglwys a Kieron a Sophie. Diolch i Leslie Larsen am drefnu'r weithgaredd hon a'n gwneud ninnau fel trigolion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n llwybrau cyhoeddus ar agor ac yn fwy na hynny y pwysigrwydd o ddod i adnabod ein cynefin.

URDD ADRAN BENTREF. Bydd yr Adran yn ail gychwyn ar nos Fawrth wedi Hanner Tymor yn y Neuadd Gymuned am 6 o'r gloch. **GENEDIGAETH.** Llongyfarchiadau mawr i Yvonne a Cadfan ar enedigaeth eu mab bychan, Ben. Llongyfarchiadau hefyd i Nain a Taid. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

Croeso mawr hefyd i Tomos, mab bychan Sioned a Gwyn. Llongyfarchiadau i chwi a phob llawenydd gyda'r bychan. Cyfle i Nain a Taid, Avril a Geraint, wirioni eto ac fe fydd Elin Prysor wrth ei bodd yn helpu. Pob bendith.

18 OED. Pob dymuniad da i Iwan Glyn ar ddathlu ei 18 oed a phob hwyl i ti yn y Coleg, Iwan.

DIOLCH. Dymuna Sioned ac Aled, 17 Bryntirion ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r dymuniadau da yn dilyn eu harholiadau yr haf hwn. Pob dymuniad da i Sioned yn Ysgol y Felinheli ac i tithau Aled, yng Ngholeg John Moores, Lerpwl.

Dymuna John Eifion ddiolch i bentref Penisarwaun a Bro'r Eco am eu dymuniadau da wedi'i lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Môn. Derbyniodd lu o gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn ac roedd wedi rhyfeddu at y fath gyfeillgarwch a charedigrwydd. Diolch o galon.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Braf oedd croesawu yr aelodau yn ôl i'r Ysgol Sul. Croesawyd tri aelod newydd sef Cai, Kieron a Sophie. Y mae tymor prysur o'u blaenau gyda'r Diolchgarwch a'r Nadolig yn prysur nesau.



Pencampwyr Carnifal Penisarwaun. Môr-ladron llon eu llyw.



Un o arddangosfeydd Eglwys Santes Hene, Penisarwaun yn ystod yr Wyl Flodau. Cynlluniwyd hon gan Mair Foulkes.

LLONGYFARCHIADAU i Dr Mair Edwards, Llys Arddun ar ei phenodiad i ddwy swydd newydd yn ddiweddar. Mae Mair, sydd yn Seicolegydd Clinigol, wedi cael ei phenodi i swydd rhan amser i ddatblygu a hybu dysgu Seicoleg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Ysgol Seicoleg, Prifysgol Cymru Bangor. Mae hefyd wedi ei phenodi i swydd Seicolegydd Clinigol, rhan amser, yng Ngwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn ardal Meirionnydd.

COFION. Deëllir fod Mary Elliot yn yr ysbyty ac wedi derbyn triniaeth lawfeddygol. Ein cofion anwylaf atat Mary a brysia wella.

BWRLWM HAF. Bu'n wythnos hynod o lwyddiannus Awst 23-29

gyda chefnogaeth dda i bob gweithgaredd. Roedd Neuadd yr Eglwys yn llawn i'r Bingo nos Lun, llawn iawn wedyn nos Fawrth i'r Chwist. Y mae'r Dawnsio Llinell yn mynd o nerth i nerth bob nos Fercher. Gwasanaethwyd y Cymun Bendigaidd nos Iau i agor yr Wyl Flodau. Yr oedd yr arddangosfeydd yn hynod o chwaethus a difyr. Roedd cryn ddiddordeb yn yr arddangosfa o ddigwyddiadau yn y pentref dros y blynnyddoedd. Roedd lluniau diddorol o'r pentref a'r fro ar werth gan Arnold Jones er budd yr Eglwys. Bu hwyl a sbri nos Iau gyda'r mabolgampau ar gaeau'r ysgol Gymuned. Nos Wener bu helfa drysor gyda 18 car yn cymryd rhan. Yr enillwyr oedd Teulu Penpwlcoch.

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Antur Waunfawr



• Meithrinfa Blanhigion

planhigion i'r ardd
gwasanaeth plannu basgedi crog a photiau

• Siop Grefftau Bryn Pistyll

stoc newydd o nwyddau chwaethus
gan grefftwyr Cymreig
dewch draw i weld beth sydd
gennym i gynnig



agored pob dydd Sadwrn yn ystod yr haf
yn ogystal a'n oriau arferol
Llun - Gwener 10.00 - 4.00



650 721



Paned boeth gan Dafydd a Myrddin i'r cerddwyr fu ar daith gerdded llwybrau Penisarwaun.

Bnawn Sadwrn cynhaliwyd y Carnifal. Cychwynwyd o'r Cartref Nyrsio gyda Seindorf Deiniolen. Roedd nifer o stondinau a sêl cist car ar y cae. Y galwr oedd Arwel Jones. Dyma'r Prif enillwyr: Addurno het - Mair Foulkes; Addurno pram - Janet Jones; Parau o dan 2 oed - Siôn a Rebecca Evans; Dros 12 oed - Anti Mary a Mrs Annie Hughes; Unigol, Meithrin - Eli; Blwyddyn Derbyn - Catrin Jarvis; Bl 1 a 2 - Siân Gwenllian; Bl 3 a 4 - Tali Kalistron; Bl 5 a 6 - Andrew Arkle; Unigol dros 15 - Selwyn, Llanrug. Grŵp - Môr Ladron: Dave Phillips, John Eifion a'u teuluoedd. Gwobr o £25: Mrs H Munro. Raffl:

Osian a Bedwyr, Sycharth.

Nid yw'r rhif lwcus 215 wedi'i hawlio eto. Cysyllter â 870760.

I gloi'r gweithgareddau, nos Sul cafwyd Cymanfa Ganu hynod o lewyrchus gyda Mair Huws, Llanrug yn arwain. Cafwyd eitemau gan Gôr Dyffryn Peris. Yr organydd oedd Mr C Williams, Caernarfon.

Bu'r gweithgareddau hyn i gyd yng ngofal swyddogion Eglwys Santes Helen a dymunant ddiolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd. EGLWYS SANTES HELEN ANRHEG ER COF. Yn ystod gwasanaeth y Cymun Bendigaid fore Sul, 12 Medi cyflwynodd y

Parchedig Gareth Parry, ganhwylbren fedydd er cof annwyl a diolchgar am y ddiweddar Mrs Jennie Robert, Elidir View a fu mor weithgar a ffyddlon yn Eglwys Santes Helen am flynyddoedd lawer.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF. Cynhelir yr Wyl Diolchgarwch am y Cynhaeaf eleni ar Sul, 10 Hydref gyda'r Cymun Bendigaid am 10.30 y bore, pryd y cyflwynir anrhegion y plant. Am 3.30 y prynhawn bydd Gosber a phregeth. Y pregethwr gwâdd fydd y Parch Gordon Campbell Owen, Bangor, cyn ficer Llanfair-is-gaer a Llanddeiniolen.

FFAIR CYNHAEAF. Cynhelir Ffair Cynhaeaf nos Lun. 11 Hydref am 6.30 yn Neuadd yr Eglwys.

CWMNI DRAMA. Cafwyd cyfarfod cychwynnol yn Neuadd yr Eglwys nos lau, 23 Medi dan gadeiryddiaeth y Parch J Gareth Parry, y Curad Mewn Gofal. Penderfynwyd bod digon o awydd a diddordeb i fwrw ymlaen i gael ail gyfarfod am 7 o'r gloch nos Fercher, 20 Hydref yn Neuadd yr Eglwys, pryd y byddwn yn cael darlleniadau o un neu ddwy o ddramâu byrion. Os oes gan rai o drigolion y pentref neu'r fro orig i'w sbario, yna dowch draw.

Teithio'r Byd — i Gicio Pêl

Mae rhai o'n papurau lleol wedi rhoi cryn sylw yn ddiweddar i safon pêl-droed yr ardal. Mae llawer yn gofyn pam nad yw'r cynghreiriau lleol yn bwydo chwaraewyr i'r timau Cynghrair Cenedlaethol lleol. Rhaid cofio fod rhai bechgyn lleol wedi gwneud eu marc. Yn eu mysg mae Eifion Jones o Lanrug, sy'n chwaraewr proffesiynol erbyn hyn gyda Lerpwl.

Braf cofnodi ei fod wedi gwneud camau breision yn ystod y tymor presennol. Dechreuodd gyda thaith i'r Eidal gyda thîm dan 20 Lerpwl. Yn cystadlu yno roedd timau cyffelyb Roma, Lazio a Real Madrid. Mae Eifion erbyn hyn yn aelod rheolaidd o dîm y 'Reserves' yn Lerpwl. Tipyn o brofiad yw hyn, oherwydd yn yr un tîm ag o mae chwaraewyr profiadol fel Riedle, Camara, Bjornaby a Friedle. Mae hefyd yn aelod o dîm dan 19 Lerpwl. Mae cynghrair arbennig i'r oedran yma, gyda phob clwb yn y 'Premiership' â thîm.

Eisoed mae wedi chwarae ar Elland Road a Villa Park. Fel na buasai hynny'n ddigon o brofiad, mae Eifion yn teithio i China ym mis Hydref i chwarae gemau yn erbyn tîm cenedlaethol y wlad honno yn Beijing. Bywyd braf, llawn profiadau yn sicr.

Y darlun sydd gen i o Eifion yw ei weld pan oeddwn yn teithio trwy sgwâr Llanrug, yn cymysgu'n braf gyda'i gyfoedion. Rwy'n sicr fod y gallu sydd ganddo yn siwr o fod yn fantais iddo yn y pen draw. Dymuniadau gorau iddo a beth am lith fach o China'?

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn: C'fon: 675754

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun

Ffôn: (01286) 871833

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathwrms
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

**Nos Wener,
Hydref 15fed 1999**

*Eisteddfod
Bentref
Penisarwaun*

**i'w chynnal yn y
Neuadd Gymuned
am 6 o'r gloch
Mynediad drwy Raglen: 50c**

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

Ein 'Chweched' Newydd



Cymryd y cam o'r pumed dosbarth i'r chweched yw un o'r rhai mwyaf ysgytwol ym mywyd disgyblion. Gorfod cymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith eu hunain a wynebu cyfrifoldebau.

Dyma oedd sylwadau rhai o'r 6ed newydd:

'Rwyf yn mwynhau'r profiad o fod yn y 6ed. Mae'r gwahaniaeth yn anhygoel, ac rwy'n edrych ymlaen i astudio'r pynciau rydw i wedi eu dewis.'

Guto Humphreys

'Mae'n braf cael mwy o ryddid, ond gall gormod o wersi rhydd fod yn ddiflas!'

Rhian Williams

'Mae cyrsiau lefel A mor wahanol i wersi TGAU, rwyf yn eu mwynhau llawer yn fwy ac, wrth gwrs, mae mwy o ryddid a pharch i'w gael yn y 6ed.'

Alun Gaffey

'Ar y cyfan rwyf yn mwynhau fy hun yn y chweched. Digon o hwyl i'w gael yn stafell y 6ed yn ystod y gwersi rhydd, ond mae'r gwaith yn drymach o lawer yn y pynciau.'

Gareth W. Jones

'Mwynhau yn arw, mae'r dyddiau yn rhywddach.'

Kelly E. Williams

'Hoffwn weld cyrsiau eraill yn cael eu cynnig, efallai Peirianeg neu'r Gyfraith.'

Gareth Griffiths

'Mwy o ryddid a'r gwaith yn ddiddorol', oedd sylw Kelly M. Williams.

Medd Catrin Pepper: 'Rydw i'n cael canolbwyntio ar y pynciau rydw i yn eu mwynhau fwyaf, ac hefyd yn cael cymryd rhan a helpu mwy ym mywyd yr ysgol.' 'Cael mwy o barch gan athrawon a gwneud y pynciau rydw i eisiau eu gwneud.'

Ifan Rowlands

'Mae'n waith caled ond mae llawer o hwyl hefyd, gwahanol iawn i'r pumed.'

Ifan Rowlands

Felly, ffafriol ar y cyfan. Cawn weld sut bydd pethau'n mynd, ac yng ngeiriau cofiadwy Alistair Garnett: 'It's alright . . . yeah!!!'

Ysgoloriaethau

Yn dilyn eu canlyniadau yn y Lefel A anrhydeddwyd Bethan Fôn Jones ag ysgoloriaeth feddygol a Dewi Thomas ag ysgoloriaeth ddeintyddol.

Teimlwn yn falch iawn o lwyddiant y ddau a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

Prif Ddisgyblion 1999 — 2000



Jemma Orlick (Llanberis) a Gwion Iwan (Llanrug) a'r dirprwyon Alaw Mai Hughes (Deiniolen) a Christopher Allsup (Llanberis).

'Paid a bod ofn'



Ar nos Lun, 13 Medi aeth llond bws o ddisgyblion hŷn Ysgol Brynrefail i Lanlllyn ger y Bala. Ond nid gwyliau oedd ar y gweill — roeddent yno i amddiffyn eu teitl fel Pencampwyr Cwis Pop Radio Cymru 'Paid a Bod Ofn'. Cynhaliwyd yr ornest rhwng 4 ysgol yn y Gogledd: Ysgol y Gader, Dolgellau; Ysgol Eifionydd, Porthmadog; Ysgol y Berwyn, y Bala ac Ysgol Brynrefail.

Cynrychiolwyd Brynrefail gan 3 o Flwyddyn 11 — Owain Sion

Williams, Eurig Roberts a Rachel Morris. Cafwyd cystadlu brwd a da. Ar ddiwedd y cystadlu cafwyd llwyddiant — Ysgol Brynrefail ddaeth i'r brig!

Bydd y criw yn awr yn mynd i Gaerdydd ddydd Gwener, 24 Medi i gystadlu yn erbyn enillwyr cystadleuaeth y De. Pe bai'r criw'n llwyddiannus, hwy fyddai'r pencampwyr am y trydydd tro yn olynol - tipyn o gamp!

Pob lwc iddynt yn y rownd derfynol wir.

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

Sion



Y BISTRO

HEFYD

BeliBistro A DELI DOLIG

Ffoniwch am fanylion

WWW.WELCOME.TO/YBISTRO

FE FYDD YN DDOLIG CYN HIR!

FFONIWCH I GADW LLE I'CH PARTI

CARTREF YMDDEOL DEINIOLEN LODGE

Ffôn: (01286) 871073



AR FIN AGOR

HOLWCH AM FANYLION

Diolch gan y Prifathro

Dymuna'r Prifathro a'r Llywodraethwyr longyfarch holl ddisgyblion yr ysgol ar safon uchel iawn eu canlyniadau yn yr arholiadau allanol, sef TASau, TGAU, TGA, CGCC a Lefel A.

Dymuna ddiolch i'r disgyblion a'r athrawon am eu gwaith caled ac i'r rhieni am eu cefnogaeth cyson.

Ffarwelio â Staff

Diwedd tymor yr haf ffarweliwyd â Mrs Gwyneth Metcalfe oedd yn athrawes hynod boblogaidd yn yr Adran Gymraeg. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Dyffryn Conwy Llanrwst.

Dymunir yr un llwyddiant i Mr Mark Porter sydd bellach wedi cychwyn ar ei gwrs fel darpar athro yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Croeso i athrawon newydd

Ddechrau'r tymor hwn pleser oedd croesawu 3 aelod newydd i'r ysgol. Ymunu Ms Catrin Wyn â'r Adran Gymraeg, Miss Sioned Williams â'r Adran Wyddoniaeth a Miss Rhian Williams â'r Adran Addysg Gorfforol. Hyderwn y byddant yn hapus iawn yn ein plith ac yn cartrefu yn fuan yma.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Enillwyr Clwb Cant

Mis Ebrill

1. Sioned Jones, Cwm-y-glo;
2. Eifion Jones, Ysgol Brynrefail;
3. Grace Williams, Llanrug.

Mis Mai

1. Ellen Jones, Ysgol Brynrefail;
2. Morfudd Thomas, Bethel;
3. Vivien Gordon, Llanrug.

Mis Mehefin

1. J.E. Davies, Bethel;
2. J.A. Hughes, Deiniolen;
3. Elsie Owen, Llanrug.

Llwyddiant Cerddorol



Daeth llwyddiant i ran y tair geneth yma yn yr arholiad ffidil. Mae'r tair wedi llwyddo i gael gradd 2 ar ôl dim ond tair blynedd o ddysgu'r offeryn. Lowri Hughes, Beverly Taylor a Ceridwen Delacy Vallacarde. Da iawn chwi ferched, daliwch ati.

Cystadleuaeth 'Fflorida 2000' y Daily Post

Ydy, mae'r amser wedi dod! Flwyddyn ar ôl llwyddiant ysgubol yng nghystadleuaeth Fflorida '99 mae'r amser wedi dod i ddechrau casglu unwaith eto.

O Fedi 20 ymlaen bydd tocynnau'n ymddangos yn ddyddiol yn y Daily Post. Y gamp eleni eto yw casglu mwy o docynnau y disgybl na'r un ysgol arall yn ein categori ni, a chyda lwc bydd 30 o ddisgyblion a 7 o athrawon yn hedfan am Fflorida fis Chwefror nesaf.

Byddem yn ddiolchgar pe baech, fel aelodau o'r gymuned, yn cefnogi'r fenter yma eto ac yn anfon eich tocynnau i'r ysgol erbyn Tachwedd 1 os gwelwch yn dda.

Y 30 disgybl fydd wedi casglu'r nifer mwyaf o docynnau fydd yn cael y cynnig cyntaf i fynd ar y daith i Fflorida os bydd yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae gwobrau eraill ar gael hefyd heblaw am y brif wobwr.

Diolch eto am eich cefnogaeth cyson.

Yn gywir,
Lowri W. Roberts

Llwyddiannau Chwaraeon

Mae cyfnod y gemau prawf ar gyfer carfanau sirol a rhanbarthol wedi bod. Bydd Carl Griffiths a Mathew Phillips yng ngharfan pêl-droed Gogledd Cymru. Ar y maes rygbi bydd Willie Mullaine yn cynrychioli tîm dan 14 Eryri. Bydd Ceri Jones yn chwarae fel 'goal attack' i dîm dan 14 Pêl-rwyd Gwynedd.

Cefnogwch ein Hysbysebwy'r

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CEIR ADAM



HURIO PREIFAT
YN UNIG



LLEOL NEU HIRBELL



LLANBERIS
871539

PLESERDEITHIAU HANESYDDOL

AR FFWRDD

SEREN YR WYDDFA

BARC GWLEDIG-PADARN
Y GILFACH DDU, LLANBERIS



Camwch yn ôl mewn amser ar fwrdd Seren yr Wyddfa.

Mwynhewch daith hamddenol ar gwch dan orchudd ar Lyn Padarn, gyda golygfeydd panoramig o Eryri. Mae'n gyfle perffaith i dynnu lluniau a gwrandao ar hanes y cyffiniau.

Bydd y cwch yn hwylio o'r lanfa 200 llath o'r Amgueddfa Lechi a maes parcio Rheilffordd y Llyn.

Oedolion	£3.50
Yr Henoed	£3.00
Plant o dan 15	£2.00
o dan 3	Am ddim
Teulu 2 + 2	£10.00


Mordeithiau

Hanesyddol Menai

Holwch ynglŷn â theithiau preifat a mordeithiau estynedig.

Prisiau partïon ar gael.

Ffôn: 07974 716418 (dydd)
01248 671156 (gyda'r nos)



Bydd y cwch yn rhedeg bob dydd tan fis Hydref o 11am tan 5pm, os bydd y tywydd yn caniatáu. Mae pob taith yn para 40 munud. Cymeradwyir y cwch gan yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau.

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



Blodau

o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

Rhoddion Sylweddol i Siop Newydd Cwm-y-glo



Perchennog canolfan Cartrefi Gwyliau Brynteg yn cyflwyno rhodd i aelodau o bwyllgor Cyfeillion y Cwm.

Yn rhifyn diwethaf 'Eco'r Wyddfa' adroddwyd hanes ymdrechion 'Cyfeillion y Cwm' i godi arian er mwyn ail-agor siop a Swyddfa Bost ym mhentref Cwm-y-glo wedi bwlch o dair blynedd. Bellach cafwyd grant sylweddol gan Fenter Ardal y Llechen, a rhodd hael o £500 gan Ganolfan Cartrefi Gwyliau Brynteg, Llanrug.

Dywedodd un o Gyfarwyddwyr Cyfeillion y Cwm, Dr Paul Rowlinson, 'Un o'n prif dargedau fu prynu offer rhewi ac oeri bwyd. Gyda chyfraniad Menter Ardal y Llechen a Chanolfan Brynteg gallwn fwrw ymlaen ar unwaith i wneud hynny. Dechreuir masnachu yn fuan a chaiff y siop

ei hagor yn swyddogol mewn seremoni arbennig ym mis Tachwedd.

'Lleolir y siop newydd mewn lle hwylus yng nghanol y pentref, yn yr un adeilad â Chaban y Cwm, sef caffi a agorwyd yn gynharach eleni gan Fenter Fachwen i ddarparu profiad gwaith i bobl ag anbleddau dysgu.

'Penodwyd rheolwr i'r siop, Roger Niblett o Dŷ Manceinion, ac eisoes mae Cownteri Swyddfa'r Post wedi gosod cownter pwrpasol yn ei le.

'Ein bwriad yw gwerthu bwydydd ac ati yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa Bost - yn cynnwys cynnyrch lleol, megis wyau a jam cartref.'



Cafwyd benthg y llun yma o Barti Noson Lawen Llanberis gan deulu'r ddiweddar Mrs Janet Davies, Stryd y Dŵr (Modurdy'r Wyddfa). Mrs Davies yw'r drydedd o'r chwith yn y rhes flaen. Oes rhywun yn gwybod ym mhle y tynnwyd y llun tybed?

Mwy o Wybodaeth

Mae'n amlwg fod cryn bendroni wedi bod uwch y llun hwnnw a ymddangosodd yn rhifyn Gorffennaf o'r *Eco* o dim pêl-droed Ysgol Brynrefail yn 1924. Mae nifer o'r chwaraewyr wedi eu henwi eisoes, ond dyma lenwi mwy o fylchau. Yn ôl Mrs Megan Parson (Wyn gynt) o Reading, ROBERT ALBERT

GILLESPIE yw'r un ar y dde yn y rhes ganol a TED RADLEY o Stryd Newton, Llanberis yw'r un ar y chwith yn y rhes ganol. Tybia Mrs Parsons mai bachgen a arferai fyw yn un o'r tai bychan hynny ar hen Allt Chwarel Glyn yw'r un yn y blaen ar y dde. Nid yw'n cofio ei enw. Erys dau ar ôl felly heb eu henwi.



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS



Rhai o drigolion Ffordd yr Orsaf, Llanrug wedi eu syfrdanu gan y diffyg ar yr haul ym mis Awst.

CARFAN RYGBI CYMRU YN LLANBERIS



Y garfan ym maes parcio Gwesty Fictoria.




Neil Jenkins yn arwyddo yn hytrach na chicio pêl!



Graham Henry — wedi mwynhau'r siwrnai.

CYMRU YN LLANBÊR. Bydd gêm gyntaf Cwpan Rygbi'r Byd yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd yfory, ddydd Gwener, Hydref 1. Pob hwyl i Gymru yn y gêm honno yn erbyn yr Ariannin, ac yng ngweddill y gystadleuaeth. Ddechrau Medi bu aelodau carfan Cymru yn ymweld â gwahanol ardaloedd a threuliodd tridiau yn ymarfer yng Nghaernarfon. Daeth y garfan i Lanberis ddydd Llun, Medi 6, gan fod trip i ben y Wyddfa wedi ei drefnu i'r chwaraewyr a'u hyfforddwyr. Roedd tyrfa dda yng ngorsaf Rheilffordd yr Wyddfa i groesawu'r garfan ar ddiwedd eu taith, a phawb am ddymuno'n dda i'r tîm ar gyfer y gystadleuaeth fawr.



Ben Evans efo dau ffrind newydd.



Scott Quinnell, Robert Howley a Craig Quinnell.

ANTUR NEWYDD

ANTUR
WAUNFAWR



Rhai o weithwyr yr Antur ar adeg dadorchuddio cofeb Meic Watts i John Evans.

'Sut wyt ti'n lecio tua'r Waun 'na?' neu 'Sut mae pobl Waun yn dy drin di?' Dyna'r ddau gwestiwn a ofynwyd amlaf imi yn ystod y ddau fis diwethaf. Braf yw cael nodi fy mod wedi gallu ateb yn gadarnhaol bob tro.

Bellach rwyf wedi bod yn gweithio i Antur Waunfawr ers bron i dri mis ers cael fy nghyflogi ddechrau Gorffennaf fel Swyddog Addysg Cymunedol.

Ar hyn o bryd beth bynnag ni allaf ddweud fy mod yn colli gorfod gweithio oddi mewn i gyfundrefn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac rwyf wrth fy modd fod gofynion y swydd yn golygu y byddai'n gweithio'n agos gyda phlant mewn ysgolion, a'r gymuned o hyd.

Wrth gwrs, fel bob prentis bach, rwyf wedi gorfod dysgu sut i wneud te a choffi. Roedd Heulwen ac Ifanwy yn awyddus i roi yr hyfforddiant mewn swydd priodol i mi ac os oeddwn yn cyrraedd fy ngwaith yn gynharach na'r rhelyw o'r gweithlu roedd rhywun yn siŵr o ddatgan yn gellweirys, 'Cofiwch mai wythnos gwas newydd ydi hi hogan!'

Un o'r profiadau cyntaf a deimlais ar ôl dechrau oedd teimlo cywilydd — cywilydd nad oeddwn i'n gwybod fawr ddim am weithgareddau'r Antur a'r holl waith cyffrous sy'n mynd ymlaen ar y safle — er fy mod wedi byw mewn pentref cyfagos am flynyddoedd lawer. Doeddwn i ddim 'chwaith wedi sylweddoli bod y Cwmni yn gyflogydd mor bwysig gyda bron i hanner cant o bobl yn gyflogedig, a hyn i gyd wedi deillio o syniad a gweledigaeth herfeiddiol Gwynn Davies.

Yn ddi-os gall pentrefwyr Waunfawr fod yn falch o'r fenter ac rwyf innau yn falch o fod wedi cael y cyfle i chwarae rhan, os bychan, yn natblygiad yr Antur.

Ym mis Awst bwm yn ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbedrgoch gyda fy nghydweithwyr. Rwyf wedi mwynhau ymweld â'r eisteddfod ers blynyddoedd, er mwyn cael cerdded o gwmpas y maes, siarad â hen ffrindiau a rhoi'r byd yn ei le. Gallwch ddychmygu felly pa mor hapus oeddwn i o gael mynychu'r steddod am dri diwrnod cyfan a hynny heb orfod talu am fynd i mewn!

Roeddwn i'n torheulo ar draeth pellenig gyda chaniatâd y Brif Weithredwraig garedig Menna Jones pan ddaeth yn amser i fynychu Sioc

Môn ond, yn ôl pob sôn, bu'n ymweliad llwyddiannus gyda llawer o bobl yn dangos diddordeb yng ngwaith yr Antur.

Roedd Awst hefyd yn gyfnod o ddathlu — dathlu bywyd John Evans, brodor o'r Waunfawr a aeth i America i geisio darganfod disgynyddion Madog. Agorwyd y Tŷ Capel yn swyddogol a dadorchuddiwyd y gofeb i'r 'dyn unig' a fu farw yn naw ar hugain oed yn New Orleans yn 1799. Bellach bydd y cerflun trawiadol gan y cerflunydd Meic Watts yn gofeb parhaol i'r arloeswr dewr o'r Waun.

Cynhaliwyd noson arbennig i drafod gwaith a bywyd John Evans, yn ogystal â darlitharbennig Gwynn Davies ym Mhabdl y Cymdeithasau yn Eisteddfod Genedlaethol Môn.

Ar ddiwrnod yr agoriad swyddogol cafwyd gwasanaeth a phregeth arbennig gan y Parchg Richard Jones, Abergele (gynt o Glynafon). Yn y pnawn daeth torf fawr o wahoddedigion ynghyd i ddathlu'r achlysur.

Dadorchuddiwyd y gofeb gan Meic Watts a gweithwyr yr Antur, wedi anerchiad agoriadol gan y Fns Elinor Wigley a Dr Marchella Barton o Brifysgol Ohio, ac fe'n diddanwyd gan Gôr y Waun, y grŵp gwerin Pigyn Clust, Steve Eaves a'i Fand, Iwan Llwyd ac Ifor ap Glyn. Er cymaint oedd cyfraniad y rhain i'r achlysur hapus yr uchafbwynt i mi oedd dehongliad Ifanwy Rhisiart o weddi George Catlin a oedd yn cydweddu'n berffaith ag ysbryd a natur y diwrnod.

Yna, nos Wener, Awst 27, cafwyd cyflwyniad cerddorol o wlad y Mandan gan Keith Bear, un o ddisgynyddion y llwyth y bu John Evans yn gyfaill iddo. Hudolwyd y gynulleidfa gan sŵn ei bib a'i alawon cyfareddol. Fel y dywedodd Angharad Tomos yn ei herthygl yn Yr Herald ni all neb oedd yn bresennol anghofio'r olygfa o un o ddisgynyddion y Mandan yn cofleidio un o wŷr y Waunfawr wedi iddo gyflwyno iddo bib draddodiadol a fendithiwyd gan ei hynafiaid.

Nid lle tawel, di-fywyd yw'r Antur a does fawr ddim cyfle i segura. Mae Gŵyl y Gwyll eisoes wedi'i chynnal y nos Wener gyntaf wedi i'r plant ddychwelyd i'r ysgol ac erbyn i chi ddarllen hwn bydd Ras Antur Waunfawr hefyd wedi'i chynnal. Mae Cwrs Wlpan i ddysgwyr

Cymraeg ar fore Llun a Mercher eisoes wedi dechrau ac erbyn y mis nesaf bydd Cwrs Cyfrifiadurol ymlaen ar ddydd Mercher i frodorion y Waun a gweithwyr yr Antur.

Byddwn yn cyhoeddi yn rhifyn

nesaf yr Eco gyfres o ddigwyddiadau gyda'r nos i oedolion dros yr hydref a'r gaeaf. Felly hefyd gyfres o weithgareddau wedi ysgol i blant 11-13 oed.

Dafydd Arfon Jones
Swyddog Addysg

GWEDDI gan George Catlin

Mawrygaf y bobl a'm croesawodd bob amser gyda'r gorau oedd ganddynt. Mawrygaf y bobl sy'n onest heb ddeddfau ac sydd ddim yn gweld angen i garchar na thloty.

Mawrygaf y bobl sy'n cadw gorchymyn heb erioed eu darllen na'u clywed yn cael eu pregethu o bulpud.

Mawrygaf y bobl sydd byth yn rhegi na byth yn cymryd enw Duw yn ofer. Mawrygaf y bobl sy'n caru eu cymdogion yn yr un modd ag y carant ei gilydd.

Mawrygaf y bobl sy'n addoli Duw heb Feibl, a chredaf fod Duw hefyd, yn eu caru hwythau.

Mawrygaf y bobl sydd a'u crefydd yn syml ac yn rhydd o densiynau diwinyddol.

Mawrygaf y bobl sydd erioed wedi codi dwm i'm herbyn, na dwyn fy eiddo, er nad oedd petaent wedi gwneud hynny, gyfraith i'w cosbi.

Mawrygaf y bobl sy'n gallu cysgu'r nos heb orfod cloi, a chadw eu heiddo heb oriadau.

Mawrygaf y bobl sydd erioed wedi rhyfela â'r dyn gwyn, ond ar eu tiroedd eu hunain.

Mawrygaf ac nid ofnaf y bobl a arhosodd yn yr union fan y gadawodd Duw hwy ar ôl eu creu, gan eu bod yno yn byw eu bywydau fel plant.

Yn wir, mawrygaf bobl ym mhobman sy'n gwneud y gorau a allent. Ond o, fel y caraf y bobl goch sydd ddim fel ni yn byw er mwyn arian.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Roedd pob aelod o'r Cyngor yn bresennol a gynhaliwyd ar Medi 7. Estynnwyd croeso i'r aelod newydd dros ward Bethel, William J. Humphreys, Llwyn Hudol. Fe gyfetholwyd John Gwynfor Jones, 9 Rhes Faenol, Deiniolen i gynrychioli ward Deiniolen, a Gwilym Williams, 1 Brynteg, Clwt-y-bont i gynrychioli ward Clwt-y-bont.

Cytunodd y Cyngor na fyddent yn derbyn cyfrifoldebau ychwanegol sydd ar hyn o bryd o dan adain Cyngor Gwynedd heb gael sicrwydd y byddem yn derbyn grantiau sylweddol ar gyfer y gwaith, a hefyd sicrwydd y byddem ar dir diogel ynglŷn ag insiwrans. Pe byddem, yn y dyfodol, yn cytuno i dderbyn cyfrifoldebau ychwanegol yna fe ddisgwyliem i'n plwyfolion gael talu llai o dreth Cyngor Sir, er ein galluogi i godi mwy o dreth blwyfol, er tegwch i drethdalwyr ein plwyf sydd â chanradd helaeth ohonynt yn bensiynwyr.

Eglurodd y Cyngorydd

Phyllis Ellis y byddai cyfarfod cyffredinol yn cael ei alw yn y dyfodol agos i egluro 'Amcan Un'. Gobeithir cynnal y cyfarfod yn Llanberis.

Fe gynhelir cyfarfod cyffredinol ym Mrynrefail yn fuan i drafod yr Hen Ysgol Sir.

Cafwyd trafodaeth faith ar lythyr a anfonwyd at yr Aelod Seneddol ynglŷn â'r cynnydd mewn troseddau. Roedd torcyfraith yn broblem gyffredinol mewn nifer o bentrefi'r plwyf ac ataeuwyd pryder am fod rhai plant oedran cynradd yn gyfrifol am nifer o droseddau. Cytunwyd i anfon sylwadau'r Cyngor i'r Arolygydd Rhanbarthol.

Rhaid derbyn ceisiadau am roddion **cyn Hydref 15**. Ni ellir ystyried unrhyw gais ar ôl y dyddiad hwnnw, a rhaid derbyn **mantolen ariannol llawn a manwl** gyda pob cais, a'u hanfon i'r Clerc, Crud-yr-awen, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE.

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgwymerir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts
Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli
(01758) 770279 : symudol 0421 956143

COLEG CYMUNED

Y newyddion diweddaraf o Goleg Menai

Dydi hi byth yn rhy hwyr!

'Dwi'n rhy hen!' — mae'n ymddangos mai dyna'r rheswm mwyaf cyffredin y mae pobl yn ei ddefnyddio dros beidio â chofrestru ar gwrsgoleg, boed hynny ar sail rhan amser neu ar gyfer dosbarth nos, yn ôl y rhifyn diweddaraf o *FE First*, cylchgrawn i'r rhai sy'n gweithio ym maes Addysg Bellach.

Bydd yn dipyn o syndod ac agoriad llygaid i chwi wybod felly fod dros 70% o'r myfyrwyr sy'n mynychu Coleg Menai dros 18 oed ac y mae rhai o'n myfyrwyr mwyaf brwdfrydig ni dros y blynyddoedd wedi bod yn eu saithdegau a'u wythdegau! Does neb yn rhy hen!

Cofiwch nad oes raid ichi fynychu'r prif safleoedd o angenrheidrwydd. Mae'r coleg yn cynnig nifer o gyrsiau, yn cynnwys *Cyfle Arall* a *Cymraeg i Oedolion*, yng nghanol cymunedau lleol ac y mae ein canolfannau ymestyn yng Nghaernarfon a Chaerdybi yn cynnig dewis eang o gyrsiau yn ystod y dydd fel y gall rhai sydd â chyfrifoldebau teuluol ddilyn eu diddordebau mewn heddwch a hynny heb orfod teithio ymhell oddi cartref.

Ar i Fyny



Un wraig leol sy'n gyn-fyfyriwr yng Ngholeg Menai yw Carol Davies o Fethel. Wedi gadael ysgol bu Carol yn gweithio mewn banc am ddwy

flynedd cyn penderfynu ei bod am newid cyfeiriad. Gan fod ganddi ddiddordeb mewn gyrfa ym maes gofal, daeth i Goleg Menai i astudio cwrs Astudiaeth Gofal a thra yno magodd ddiddordeb arbennig yn y maes Therapi Iaith a Lleferydd.

Wedi cwblhau ei chwrs yn llwyddiannus aeth ymlaen i ddilyn cwrs gradd mewn Therapi Iaith a Lleferydd ym Mhrifysgol Caerdydd. 'Roedd y cwrs yng Ngholeg Menai yn sail arbennig o dda ar gyfer y cwrs gradd gan ei fod yn cynnwys elfennau tebyg iawn i'r pynciau yr oeddem yn eu hastudio,' meddai.

Bu Carol yn gweithio yn Adran Therapi Iaith a Lleferydd Môn a Gwynedd ers hynny. 'Gweithio gyda phlant yw fy swydd yn bennaf ond mae hynny'n golygu cydweithio'n glôs gydag athrawon a rhieni hefyd,' meddai. Yn y dyfodol dywed mai ei dymuniad yw gweithio gydag oedolion i oresgyn eu anawsterau iaith a lleferydd, pobl sydd â nam clyw neu sy'n gwella wedi cael strôc neu ddamwain. 'Mae llawer iawn o foddhad i'w gael o'r swydd hon gan fy mod yn gweld datblygiad,' meddai Carol. 'Mae hynny'n deimlad braf.'

Mae hanes Carol i'w weld yn y cylchgrawn *Ar i Fyny* sy'n olrhain hanes rhyw 30 o gyn-fyfywyr Coleg Menai.

Parlez-vous? . . .

Bu dros 100 o bobl yn dilyn cyrsiau iaith yng Nghanol Coleg Menai, Caernarfon y llynedd. Yr hydref hwn y gobaith yw cynnal cyrsiau yno ar siarad amrywiol ieithodd Ewropeaidd, yn benodol ar gyfer siopwyr a pherchnogion gwestai lleol, fel y gallant siarad iaith cwsmeriaid a ddaw ar wyliau i'r ardal o Ewrop.

Mae'r ieithoedd yn cynnwys Ffrangeg, Eidaleg, Almaeneg a Sbaeneg a'r nod yw cynnwys testunau perthnasol fel arian, bwyd a diod a sut i gynnal sgwrs

gyffredinol. Bydd y dosbarthiadau, a fydd yn costio £35, yn dechrau am 5 p.m. fel y gall siopwyr alw heibio ar ôl gwaith gyda'r perchnogion gwestai yn gallu bod yn ôl yn eu man

gwaith yn fuan wedi 7 p.m.

Am fanylion pellach cysylltwch gyda John Penri Williams yng Nghanol Coleg Menai, Caernarfon (01286) 673450.



Sioned Larsen, Ceunant, darlithwraig rhan-amser yng Nghanol Coleg Menai, Caernarfon gyda grŵp o fyfyrwyr NVQ.

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Elfion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon

673513

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?

Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?

Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

SGIPIAU ANFRAG

(ROBIN THOMAS)

- ★ DOMESTIG A MASNACHOL
- ★ SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
- ★ TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
- ★ GWASANAETH 7 DIWRNOD

HEFYD YN DELIO
MEWN METAL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN



Ffôn: 870753 neu 660118

Symudol: 0498 636559

TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN

CYNLLUN DODREFN antur waunfawr



medrwn gasglu eich hen ddodrefn
yn rhad ac am ddim
a'i ddosbarthu i bobl mewn angen

rydym angen ar gyfer ein cleientau -
dodrefn pren mewn cyflwr da / soffas/cadeiriau
esmwyth yn cyfarfod Rheolau Tân 1988
/ gwiau ac offer ty amrywiol

☎ 01248 355 112

Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd
safle Wê www.anturwaunfawr.org

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri nos lau, Medi 9fed a daeth cynulleidfa dda ynghyd. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Verna Jones, Meillionen ar y testun 'Moliant'. Cadeirydd y noson oedd Ifanwy Jones, Rhandir. Anfonwyd cofion at rai o aelodau'r Gymdeithas na fu yn dda eu hiechyd yn ddiweddar a chroesawyd ganddi westeion y noson, sef Olwen a Gwilym Lewis, Caergybi. Troslwyddodd y ddau yn eu dull dihafal eu hunain, a oedd yn llawn hiwmor cyrhaeddgar, brofiadau unigryw eu plentyndod yng Nghaergybi ynghyd â datganiadau cerddorol lleisiol ac offerynnol. Cafwyd gair o ddiolch diffuant gan Alice Williams oedd yn tanlinellu gwerthfawrogiad pob un oedd yn bresennol o gyfraniad y chwaer a'r brawd o Gaergybi. Er i Gwyneth Evans, Ty'n Buarth gael ei tharo'n wael yn ystod y noson a'i chipio i Ysbyty Gwynedd bu anwyldeb arbennig y gwesteion yn wyneb y sefyllfa a'u proffesiynoldeb weddill y noson yn atgof a erys ymhlith pawb oedd yn bresennol. Llawnwydd ar y diwedd hefyd oedd llongyfarch Gwilym Lewis ar noson ei ben-blwydd ar ddyddiad cofiadwy — y nawfed dydd o'r nawfed mis y flwyddyn naw deg naw. Roedd y lluniaeth ar y terfyn wedi ei drefnu gan Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog a Joan Williams, Clwt-y-bont. Llawnwydd erbyn hyn yw datgan fod Gwyneth Evans, Ty'n Buarth yn llawer gwell wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Eiddunwyd adferiad llwyr iddi. Bydd y cyfarfod nesaf, yr olaf y flwyddyn hon, nos lau, Hydref 14eg ac edrychir ymlaen i groesawu'r gŵr gwadd am y noson, sef Dei Tomos, Nant Peris. Estynnwn groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn i gloi'r tymor.

YR HEN YSGOL RAMADEG. Fel y mae'n wybyddus i ni bentrefwyr a thrigolion y fro a thu hwnt, bu symud yr ysgol i Lanrug yng nghanol y pumdegau yn loes calon ac er protestio yn ddiweddarach pan brynwyd yr ysgol gan y Rainer Foundation o Lundain yn ganolfan i ddisgyblion ar brawf, gwariwyd llawer o arian gan yr elusen honno i addasu'r ysgol ac roedd yr adeilad

dan yr enw Hafod Meurig a'r tir o gwmpas mewn cyflwr derbyniol iawn am nifer o flynyddoedd. Oherwydd cyni ariannol bu raid i'r Rainer Foundation ddwyn eu gwaith i ben ym Brynrefail. Bu'r adeilad ar werth am gyfnod hir ac wedi gwerthiant yn ddiweddarach i gwmni gweithgareddau awyr agored lleol ni wnaed defnydd o'r prif adeilad a bu ei ddirywiad yn enfawr ac nid oedd y loes cynnar i'w gymharu ac edrych ar gyflwr cywilyddus yr adeilad yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Y llynedd daeth yr adeilad ar y farchnad unwaith eto ac erbyn hyn deallwn mai'r prynwyr yw Cyngor Gwynedd.

Mae cynlluniau ar gweill i ddymchwel yr adeilad a chodi gweithdai crefft, caffi, siop, toiledau a chyfleusterau parcio.

Ni ellir ond croesawu unrhyw ddatblygiad fydd yn welliant i'r safle ond mae llawer un yn holi a fydd manteision penodol i ni fel pentrefwyr a thybed a gedwir rhan o'r adeilad gwreiddiol? Cyn y darlennir hyn o adroddiad gobeithio y bydd pawb sydd â diddordeb yn y datblygiad arfaethedig wedi lleisio ei farn yn y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor yn Festri'r Capel nos lau, Medi 23ain.

Bu llawer o ddadlau ym mlynnyddoedd olaf y ganrif ddiwethaf ymhle yn union i godi ysgol a fyddai'n hwylus i wasanaethu disgyblion y fro. Ym mlynnyddyn olaf y ganrif bresennol dyma'r safle ddewiswyd yn bwnc llosg unwaith eto. Hyderwn y bydd rhywbeth positif wedi ei gyflawni cyn dathliad canmlwyddiant sefydlu Ysgol Brynrefail yn y flwyddyn 2000.

PROFEDIGAETH. Ddydd Llun, Medi 20fed, yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, bu farw Mr Hugh Williams, 4 Tai Orwig. Bu'r angladd preifat yng Nghapel Brynrefail ddydd Gwener, Medi 24ain, ac yn dilyn ym mynwent y Santes Helen, Penisarwaun. Gweinyddwyd gan y Parchg D. J. Pritchard, Llanberis. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i weddw, Mrs Maggie Williams, ei fab Dewi a'r teulu oll yn eu profedigaeth. SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu'r gangen y mis hwn yng Nghaffi Cae Coch yn Llanberis trwy garedigrwydd y perchennog a

llywydd y gangen, Pat Jones. Treuliwyd noson ddiddorol dan arweiniad Anita Long, Tan yr Onnen yn paratoi tair rysait i'w defnyddio mewn gwahanol gyrsiau a'r cyfan yn defnyddio moron. Cafodd pawb flasu'r cawl moron a pherlysiau a baratowyd ynghyd â thorth lysieuol addas ar gyfer prif gwrs. Ar y terfyn mwynhaodd pawb felysfwyd o gacen foron addurniedig gyda phaned wedi ei pharatoi gan y llywydd a'r wraig wadd. Diolchwyd yn gynnes am noson bleserus gan Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mai Davies, oedd

Verna Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Hydref 18fed, pryd y disgwylir Pat Charnock o arch-farchnad Safeway i arddangos cynnyrch.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Trefn yr Oedfan am fis Hydref:

3. Mr John McBryde, Brynrefail (10)
10. Mr W. Arfon Roberts, Pwllheli (5.30)
17. Mr Gwilym Charles Williams, Bae Penrhyn (5.30)
24. Parchg Harri Parri, Caernarfon (5.30)
31. OEDFA DDIOCHGARWCH dan arweiniad Mr Merfyn Jones, Caernarfon (5.30)

FACHWEN

MARWOLAETH. Dydd lau, 9ed o Fedi mewn ysbyty yn Poole, Dorset, lle'r oedd wedi cartrefu gyda'i deulu ers blynnyddoedd bellach, bu farw Wilfred Allan Jones, Bryn Bela, Fachwen gynt, yn 74 mlwydd oed. Roedd wedi colli ei iechyd ers tua tair blynedd ond yn cadw cysylltiad â'r ardal hon trwy dderbyn *Eco'r Wyddfa* ac ysgrifennu ambell lythyr i'r papur.

Ar ôl gadael Ysgol Sir Brynrefail aeth yn brentis saer coed gyda chwmni Arthur Land, Caernarfon cyn symud i Stafford lle y cyfarfu a'i wraig Eileen — roedd ei thad hi yn warden carchar yn Stafford ac aeth Wil i weithio ato. Buont yn gweithio hefyd yn Ynys Wyth cyn symud i Poole.

Cydymdeimlwn â'i wraig, Eileen, ei ferch Audrey a'i gŵr, a'i ŵyr Owain, sy'n dair oed.

Bu'r angladd yn Amlogfa Poole ddydd Mercher 15fed o Fedi.

LLONGYFARCHIADAU i lfor ap Glyn, Caernarfon, Bardd y Goron Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni. Nid dyma'r tro cyntaf iddo gynnig am y Goron a daeth yn ail unwaith neu ddwy.

Mae gwreiddiau lfor yn y Fachwen o ochr ei nain, sef Gwen Parry, Ty'n Pwll, a briododd â Harry Owens a chartrefu yn Llanrwst. Roedd barddoni yn flaenllaw iawn gan ei hen-daid, Robert Closs Parry, Ty'n Pwll, a'i daid a'i nain Llanrwst yn weithgar iawn ymysg y 'pethe'.

Mae lfor a'i wraig Bethan (hogan o Nefyn) yn byw yng Nghaernarfon ac mae ganddynt bedwar o blant. Graddiodd y ddau ohonynt mewn Hanes yng Ngholeg Caerdydd. Mae

gan lfor ei gwmni ei hun gyda'r cyfryngau ac fe'i gwelir o dro i dro ar S4C.

Mae Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug yn fodryb iddo (chwaer i'w nain), ac mae'n gyfyrder â Robat Arwyn y cerddor sy'n byw bellach yn Rhuthun.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

CROESO. Mae teulu newydd wedi dod i fyw i Oerddwr. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

LLONGYFARCHIADAU i Guto Humphreys, Robin Gardiner a Rheon Parry ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau TGAU. Pob lwc i'r tri i'r dyfodol.

Pob lwc hefyd i Kelly Roberts sydd yn mynd i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Dora Roberts, Min y Parc yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

LLONGYFARCHIADAU i Alec a Bet Storey ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Madeline Rose, i Katy a Tony Storey.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy'r

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG

MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



Llythyr o'r America

Cambria
Wisconsin

Februari 11th 1885

Anwyl Chwaer,

Derbyniais dy garedig lythyr bore heddyw, ac yr oeddwn yn falch iawn ohono. Yr oeddwn wedi disgwyl llawer iawn am un oddiwrthyt, ond o'r diwedd fe ddaeth.

Yr oedd yn dda gennyf ddeall dy fod wedi taro ar le mor gysurus yna, rwy'n sicr y gwnei ddygymod yn iawn a'r amaethwyr yna, pobl groesawgar a chymdeithasgar iawn ydynt hwy bob amser.

Yr oeddwn wedi clywed William yn dweud dy fod mewn gobaith am le yn agos i Llanrwst, a'r hyn a ddaeth i fy meddwl ar unwaith ydoedd, fod yn rhaid dy fod yn myned i le difyr iawn, y mae yn un o leoedd harddaf a welais i erioed yng Nghymru 'Ar feinion ceinion Conwy' medd yr hen gan, onide? Peth arall hwylus iawn sydd yna, ydyw bod yn ymyl ffynnon Trefriw. Os byddi yn teimlo ychydig bach o waeledd, dim ond rhedeg drosodd i'r ffynnon am feddyginiaeth. Ond mae'n debyg y byddi dithau fel llawer ddim yn gweled gwerth ynddi ar ol myned mor agos idd. 'Prinder a ddengys gwerth o beth'.

Hefyd rwy'n deall dy fod mewn lodging cysurus iawn, sef 'ty ffarm'. Nid oes diwedd ar groesaw y ffermyr yng Nghymru, yr un fath ag America. Dyna y bobl mwyaf croesawus a welais erioed. Nis anghofiaf byth y caredigrwydd wyf i wedi ei dderbyn ganddynt er pan wyf yma, yn enwedig teulu y 'Llan' a 'Pen-y-Gwryd' yma. Y maent braidd oll yn dda iawn. Y mae D'ewyrth John Rowlands yn un o'r dynion mwyaf caredig a welais erioed. bydd pob Sul eisau i mi ddod yno i giniaw neu swper, ac os nag af, braidd na fuasai yn digio wrthyf am beidio, bydd yn ofynol fod gennyf ddigon o esgus dros beidio myned, cyn y caf droi draw oddiwrtho.

Nid oes yma ond ychydig iawn i'w wneud y gauaf yma ond porthi yr anifeiliaid, a rhedeg i'r ty i ymdwymo. Y mae yn gwneud gauaf caled iawn yma eleni. Y mae braidd bob dydd ers chwech wythnos yn oer iawn. Y mae'r hin-fesurydd o zero i 30 below zero bob dydd. Y mae'r eira yn disgyn yn barhaus, y mae tua 18" o ddyfn ar le gwastad, a'r lluwchfeydd wedi cuddio y benches i gyd. Nid oes neb yn meddwl am gerdded i'r capel neu'r pentref. Gyda'r teams mae pawb yn myned i bobman.

Y mae yma school-house mewn hanner milltir i'r ty yma, ac y mae yno ysgol yn cael ei chadw bob dydd. Tua 18 yw nifer yr holl ysgol. Y mae gan y teacher tua 5 milltir i ddod yno ac oddiyno, bob bore a hwyr, trwy yr holl dywydd. Mae'n debyg fod maes-y-groes yn agos i'r ysgol. Pa beth yw enw y ferch yna? Cofia fi at bawb sydd yn fy adwaen yna. Mae'n debyg fod yna rhywun yn rhywle!

Y mae yma amryw y ffordd yma o'r ardaloedd yna, Llanrwst a Trefriw. Y mae yma rai, rwy'n sicr, fod gwr Maes-y-groes yna yn ei adwaen, os ydyw yr hen setler yna. Y mae yma un o'r enw Edward Williams, Buck Hill, hen wr yr wyf yn gydnabyddus ag ef, y mae yma yn un o'r rhai cyntaf. Y mae ganddo frawd yn Dr. yn Cambria (sef y pentref) o'r enw John Ll. Williams. Y mae yn ddoctor smart iawn, ond ei fod yn difetha ei hun gyda diod, fel y mae mwyaf gresyn. Y mae ei frawd Ed. yn hen wr crefyddol iawn ac yn flaenor gyda'r Annibynwyr. Y mae gan Ed. Wm. ffarm yma, ac y mae yn dda iawn allan mewn pethau y byd. Y mae ei fab Thomas adref gydag ef newydd briodi gyda pherynas i ni, sef merch i ferch Morris Roberts, Pen-y-bryn, Nant Uchaf gynt. Y mae ganddo 2 ferch, a dyna'r oll o'r teulu ef a'r mab, a 2 ferch. Y mae wedi claddu ei wraig ers blyneddau. Hwyrach fod dy feistr ty lodging yn eu h'adwaen.

Bu yma ferch ieuanc o Trefriw yn Cambria yma yr haf diweddfaf gyda ei modryb Margaret Hughes Ceunant, sef merch Ceunant, Nant Uchaf. Yr oedd yn eneth nice iawn. Bum yn cael llawer hen sgwrs am Gymru gyda hi. Y mae yn awr yn New York. Y mae yn agos i Evan G. Ellis, Gellihrbant. Yr wyf wedi anfon ati drwy ei chefnither, merch y Ceunant yma am iddi a gofio a myned i Lanberis i ddweud dipyn o fy hanes. Y mae yn eneth smart iawn ac wedi gweled llawer iawn. Maggie Pierce yw ei h'enw. Y mae ei chartref yn ymyl ty yr hen Miss Thomas, Rowan House. Buont yn byw yn Bethesda. Yr oedd yn adwaen Miss Davies yn dda iawn, a'r teulu. Daethant oddiyno i Pant-y-Carw, yn agos i'r hen Turnpike sydd rhwng Trefriw a Llanrwst. Symudasant wedi hynny i bentref Trefriw. Yr oedd yn dweud ei bod am ddod drosodd i Gymru ym mis Mawrth neu Ebrill nesaf. Ac os y daw i dy gyrraedd i rhywle yna, cofia am fyned a hi i Lanberis, er mwyn i Nhaf gael ychydig o hanes y Welsh

Prairie yma. Y mae yn gwybod am y teulu i gyd. Byddai hynny o ddiddordeb mawr i fy Nhaf.

Y mae yma fachgen ieuanc arall, ddaeth yma tua blwyddyn o fy mlaen i, ei enw yw Hugh Owens. Un o Drefriw ydyw yntau. Claddwyd ei frawd tua blwyddyn yn ol yna. Y mae yma lawer iawn o Sir Ddinbych, ond o Llanberis a Llanddeiniolen y mae y mwyaf o lawer.

Cefais lythyr oddiwrth William ddechreu yr wythnos hon a bwndel o 'songs'. Y mae yma hwyl garw iawn gyda hwynt. Yr wyf i a Tom yn eu dysgu. Y mae Tom yn gannwr da iawn a Jemima yn chwareuog iawn. Y mae wedi dysgu chwarae y songs i gyd yn awr ac y mae Tom wedi dysgu canu dwy ohonynt, 'Bachgen Dewr' a 'Llan y Cariadau'. Y mae'n fwy na thebyg y gwnaf innau ddysgu rhai ohonynt cyn hir, mesyl tipyn.

Y mae yma hwyl garw iawn y gauaf hwn. Y mae yma gyfarfodydd llenyddol yn cael eu cynnal bob pythefnos, a hwyl iawn fydd ynddynt. Canu, dadleu, adrodd, cystadlu ar wahanol bethau. Testyn y dadleuon ydyw wedi bod:

— Pa un ai drwg neu daioni i'r achos dirwestol a wnaeth pleidwyr St. John yn yr etholiad diwethaf.

— Pa un, a ydyw yr iaith Gymraeg yn fantais i'r Cymro Americanaidd ai nad ydyw.

— Pa un ai clyw ai y golwg ydyw y mwyaf defnyddiol i ddyn.

— Pa un ai gobaith ai mwynhad sydd yn rhoddi mwyaf o gysur i ddyn.

— Pa un yw y goreu, y wlad, ai y dref i fyw ynddynt.

Yr wyf wedi cael fy rhoddi fy mhig ym mhob un o'r dadleuon hyn. Yr oeddwn i a Tom Closs yn gaptiniaid ar Gobaith a Mwynhad. Myfi ar ochr Mwynhad a Tom ar ochr Gobaith. Y mae yna le difyr iawn er ei bod mor oer.

Yr oedd Wm. yn dweud ei fod mewn blys garw ddod drosodd yma yr haf nesaf, neu'r haf wedi hynny. Pe buasai yn dod buasai yn lles mawr iawn iddo, ac hefyd y buaswn innau yn falch iawn o'i weled. Os daw, gwanaf innau addewid ag ef i ddod drosodd i Eisteddfod Caernarfon yn 1886, ac Exhibition yn Llundain yr un ffordd. Bydd y voyage yn rhad iawn rwy'n sicr. Yr wyf yn sicr iawn o sefyll at fy addewid os caf fywyd ac iechyd, ac hefyd os aiff y gytundeb rhyngom ein dau. Cawsai groesaw mawr gan y teulu y ffordd hon pe deuai yma. Nid oes diwedd ar eu caredigrwydd, yn enwedig gyda rhai o'r teulu o Gymru.

Pan y byddi yn myned i Cae'r Milwr a Gymanog, cofia fi attynt oll yno. Yr wyf yn meddwl am ysgrifennu at D'ewyrth Griffith rhyw bryd cyn hir. Nid wyf yn adwaen gwraig Uncle John, ond nid yw o'r un gwahaniaeth. Cofia fi attynt oll, os digwydd i ti weled rhywun o Cernioge. Anfon fy nghofion caredig iddynt hwythau.

Y mae yma un o Lanrwst yn Wisconsin yma newydd briodi merch ieuanc o Cambria. Un digon di-gymeriad ydyw y ddau. 'Dwyfor' ydyw gwyr pawb amdano fel yna. Y mae ei wraig yn Llanrwst o deulu parchus iawn. Wedi ymadael a'u gilydd y maent, ac y mae ef yn awr wedi priodi. Y maent yn aros yn Milwaukee. Yno y mae Lizzie o hyd a Benneth hefyd. Beth oedd yr achos iddi anfon y fath gelwydd mawr am danaf fi i Llanberis tybed? Rwy'n deall fod teulu Fron Goch wedi cynhyrfu dipyn ond cawsant dawelwch trwy gael fy llythyr mewn pryd. Ni chlywais oddiwrth Morris ers talwm. Myfi sydd i ysgrifennu gyntaf rwy'n meddwl. Y mae'n debyg dy fod wedi cael hanes mab G. Closs, sef Bob Closs. Y mae yn dod i'r amlwg yn Pennsylvania. Fe gerddodd ganuoedd o filltiroedd. Croesodd Ohio, a Pennsylvania, a'r rhan fawr o Indiana. Y mae John D. Closs yn y Welsh Prairie yma. Y mae wedi troi yn fachgen da iawn. Y mae Ellen, Esgeiriau wedi myned i Fair Haven at John ei brawd. Nid yw yn lecio yno medd John D. Closs, achos ynor yr oedd cyn iddo ddod i fynny yma.

Terfynnaf yn awr gan gofio attat yn y modd caredig.

Ydwyf, dy frawd,

O. W. ROWLANDS
Cambria P.O.
Box 67
Wisconsin
U.S.A.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN


Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



Cig Bethel



**OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS**



**PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS**



**PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL**

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

Paul Rowlinson i olynu Dafydd Wigley?

Mae Dafydd Wigley wedi datgan y bydd yn sefyll i lawr fel Aelod Seneddol erbyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf er mwyn canolbwyntio ar ei waith fel Arweinydd yr Wrthblaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dywedodd Paul Rowlinson, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug, ei fod am geisio enwebiad Plaid Cymru pan fyddant yn cyfarfod i ddewis eu hymgeisydd i olynu Mr Wigley fel Aelod Seneddol dros Arfon yn gynnar ym mis Tachwedd.

Meddai: 'Er bod llawer o gyfrifoldebau pwysig fel addysg, iechyd, cyflogaeth, tai ac amaethyddiaeth wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad bellach, mae meysydd pwysig eraill megis pensynau a nawdd cymdeithasol yn dal i gael eu rheoli o'r Senedd

yn Llundain. Dim ond y Senedd honno sy'n medru pasio deddfwriaeth gynradd sy'n effeithio ar Gymru.

'Buaswn yn falch o gael y cyfle i gynrychioli Arfon a defnyddio'r profiad rwyf wedi ennill trwy wasanaethu'r gymuned yn ardal Eco'r Wyddfa er mwyn gwasanaethu ardal ehangach.

'Fy nod fyddai gwneud fy ngorau dros bobl yr etholaeth a chydweithredu gyda Dafydd Wigley a'i dîm yn y Cynulliad er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru.'

Ei brif ddiddordebau gwleidyddol yw Addysg, Adfywiad Cymunedol, Datblygiad Economaidd a Chymdeithasol Cynladwy, Polisi Gwyddoniaeth a Chyllid Cyhoeddus.

Ar ôl graddio yn Rhydychen, enillodd gymwysterau proffesiynol mewn addysg a chyllid cyhoeddus.

Mae Paul Rowlinson yn byw yng Nghwm-y-glo ers chwe blynedd, wedi symud o Gaernarfon. Y mae ganddo dri o blant ac mae'r hynaf yn mynychu adran y babanod yn ysgol Cwm-y-glo, lle mae Dr Rowlinson ar y Bwrdd Llywodraethol. Daw o Loegr yn wreiddiol ac mae wedi dysgu Cymraeg yn rhugl ers dod i Gymru i fyw.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant
Ffôn: (01286) 870356

DYMUNO'N DDA. Dymuniadau gorau i Aled Davies, Tan y Bryn yn Adran Oceanography Prifysgol Bangor.

YSGOL FEITHRIN. Dymuniadau gorau i Gareth Pritchard, Tyddyn Alice, sydd newydd ddechrau yn yr Ysgol Feithrin yn Llanberis.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Amanda a Pete Welsby, 1 Glanrafon, ar enedigaeth eu merch fach, Cadi.

REHOBOTH. Brynhawn Sul, 12 Medi cynhaliwyd yr oedfa Sul gyntaf yn y capel wedi'r gwaith atgyweirio a wnaed arno. Bu'r capel ar gau ers mis Rhagfyr 1997 gan fod stormydd y Nadolig hwnnw wedi achosi difrod i'r nenfwd. Bu rhaid gosod nenfwd newydd er mwyn diogelu'r adeilad. Erbyn hyn mae golwg dda ar y capel unwaith eto, ac mae llawer o'r diolch am hynny i'r aelodau hynny a fu'n brysur yn paentio a glanhau. Diolch yn fawr iddynt am eu hymdrech a'u llafur. Yn ystod y deunaw mis diwethaf cynhaliwyd yr oedfaon yn y festri, ond mae pawb yn falch o weld y capel yn cael ei ddefnyddio eto. Daeth rhai o aelodau eglwys eraill yr ofalaeth yn Llanberis a Deiniolen i ymuno ag aelodau a chyn-aelodau Rehoboth yn yr oedfa gyntaf.

CWRS GRADD. Llongyfarchiadau i Eryl Ogwen ar gael ei dethol i ddilyn cwrs gradd MSc mewn Patholeg a Toxicoleg yn Ysgol Feddygol Prifysgol Caerlyr.


BRIGAD SANT IOAN. Diolch i'r merched a drefnodd y noson Bingo yng Ngwesty Dolbadarn yn ddiweddar. Gwnaed elw o £125. Diolch hefyd am gefnogaeth y pentrefwyr.

CREFFTAU. Os oes gennych ddiddordeb mewn crefft o unrhyw fath, beth am ymuno â ni yn Ty'n Llan am 8 o'r gloch nos Lun, 11 Hydref i drafod rhaglen y gaeaf.

LLONGYFARCHIAU. 'Yn Ty'n Llan mae cwrw llwyd Mae o'n ddiod ac yn fwyd' ...meddai'r hen gân. Ond erbyn hyn, mae yna wledd o ddanteithion blasus hefyd. Profwyd hyn yn ddiweddar gan fod y tafarnwr, Richard Treble, sydd hefyd yn gogydd dawnus, wedi ennill yr ail wobwr yng nghystadleuaeth flynyddol bragdy Robinsons. Cynhaliwyd y rownd derfynol yn Milton Keynes ac roedd 426 yn ymgiprys am y wobwr. Un o hanfodion y gystadleuaeth oedd fod porc yn un o'r cynhwysion a chyflwyniad terfynol Richard oedd 'Sweet and Sour Pork', ac mae i'w gael ar y fwydlen erbyn hyn. Llongyfarchion Richard, a dal ati.

Mae bwydlen Nadolig i'w chael yn Ty'n Llan o ddechrau Rhagfyr ymlaen. Ffôn: 870284.

Agor Siop Newydd



Mae teulu o Lanberis wedi agor dwy siop newydd yn ddiweddar. Bu Gareth Reynolds a'r teulu yn cadw siop bapur newydd yn Alexandra House ers blyneddau. Erbyn hyn maent wedi agor siop grefftau ac

anrhegion — 'Gift Box' — yn Green Bank. Freda, ei wraig, sy'n cadw'r siop hon ac mae'n gwerthu amryw o nwyddau o'i gwaith ei hun. Ac wedi symud y crefftau yno, penderfynwyd mentro ac agor

marchnad fechan mewn un rhan o'r siop yn Alexandra House. Mark, eu mab, sy'n gofalu am y siop newydd sy'n gwerthu bwydydd ac offer glanhau. Pob hwyyl i'r teulu efo'r ddwy siop.

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI
anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa**

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

PLAS PENGWAITH. Hoffai pawb yn y Cartref ddymuno gwellhad buan i Mrs Bessie Owen a Mrs M. Munro sydd yn yr ysbyty.

Byddwn yn ffarfelio â Mr a Mrs Munro ddiwedd mis Medi gan eu bod yn symud i fyw i gartref yn Llanrwst. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yno. Bydd yn rhyfedd yma hebddynt.

Mae Mrs D. Evans, Maes Padarn wedi dod i aros atom am gyfnod. Croeso cynnes iddi atom. Dymunwn ben-blwydd hapus i Mrs M. Williams a Mr J. Munro a fydd yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Hydref.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Myfanwy Jones yn ei naw deg nawfed blwyddyn. Bu farw'n dawel yma yn y Cartref fore dydd Gwener, Medi 17. Roedd Anti Fanwy yn gymeriad. Treuliodd flynyddoedd ei bywyd priodasol yn Llanrug, er mai un o Lanberis oedd hi'n wreiddiol. Roedd croeso i'w gael ganddi bob amser pan fyddai rhywun yn galw i'w gweld, yn enwedig rhai o'r fro. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mr a Mrs T. Toleman a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

UNDEB Y MAMAU. Yn festri Eglwys Sant Padarn brawn Mawrth, Medi 7, cynhaliwyd y cyfarfod misol. Mrs Betty Humphreys arweiniodd y gwasanaeth.

Estynnwyd cydymdeimlad dwysaf i Gordon a'r teulu o golli Beryl, gwraig, mam a nain hoffus iawn. Roedd Beryl, tra oedd ei hiechyd yn caniatáu, yn aelod ffyddlon a selog o Undeb y Mamau, ac felly, er cof amdani ac am ei ffyddlondeb, fe safodd yr aelodau am funud o dawelwch.

Da oedd deall fod Hilda Williams wedi gadael yr ysbyty ac wedi mynd i Lanfairfechan at ei merch Anita am ychydig ddyddiau — brysiwch yn ôl atom Hilda.

Braf iawn hefyd oedd gweld Clara hefo ni wedi iddi gael damwain yn ei chartref.

Sesiwn o brynu nwyddau oedd wedi eu cyfrannu gan yr aelodau oedd yn dilyn a gwnaed elw sylweddol. Mrs Betty Humphreys a Mrs Betty Williams oedd yn ymorol am y baned a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Bet Hughes a Mrs Kathleen Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Morris.

Terfynwyd y cyfarfod trwy gydadrodd y Gras.

CYMDEITHAS EGLWYS ST. PERIS A ST. PADARN. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas yn y Rheithordy, nos Iau, Medi 2, gyda Mrs Anne Parry-Jones yn llywyddu, a chroesawyd yr aelodau ynghyd â phedwar aelod newydd. Fel arfer dechreuwyd trwy weddi gyda Mrs Moreen Lennon yn arwain. Datganwyd ein cydymdeimlad â theulu un o aelodau cyntaf y Gymdeithas, Mrs Beryl Owen, a fu farw yn ddiweddar. Dymunwyd adferiad iechyd buan i Mrs Hilda Williams ac i Mrs Jean Roberts.

Y siaradwr gwadd oedd y Parchg Gwynfor Williams ac fe rannodd gyda ni rhai uchelbwyntiau o'i ymweliad â Rhufain a thrwy gymorth sleidiau dangosodd y trysorau gwerthfawr sydd yn yr eglwys yno.

Y chwirydd Joyce a Sheila Foulkes oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl a Mr Stanley Owen fu'n lwcus i'w hennill y tro yma. Diolchwyd iddynt i gyd gan Mrs Evelyn Williams a llongyfarchwyd hi a Derek ar ddod yn nain a thaid yn ddiweddar, a hynny am yr eildro.

DIOLCH. Dymuna Gordon a theulu y ddiweddar Beryl Janet Owen, 46 Maes Padarn ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl a charedig. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanberis. Diolch arbennig iawn i'r ffrindiau a oedd yn ymweld â hi yn gyson, i holl staff Meddygfa Llanberis am eu gofal, i'r Parchg Philip Hughes am ei ymweliadau yn ei chartref a'i wasanaeth yn yr angladd, ac i Mr Derek Jones a Mr Glyn Roberts yr organydd. Diolchwn yn fawr hefyd i Mr Myrddyn Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefniadau trylwyr.

Beryl — o'th nabad — anrhydedd
Dy gwmni bob amser oedd bleser.
O'th boen bu dianc i harddwch y nef,
At dy Dduw — gwyn dy fyd.
(Anne Parry-Jones)

DIOLCH. Dymuna Mrs Hilda Williams, 5 Vaynol Cottages ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu dymuniadau da tra bu yn



Treuliodd Kate Archer, athrawes yn Cairns West School, Queensland, wythnos yn Ysgol Dolbadarn yn ddiweddar. Trefnwyd yr ymweliad fel rhan o Gynllun Cyfnewid y Cyngor Prydeinig i hybu dwyieithrwydd a'r deunydd o ieithoedd cynhenid. Yn ystod ei hymweliad bu Kate yn gweithio gyda'r plant. Dangosodd iddynt fideo o fywyd y cangarw a'r possum. Darllenodd amryw o storïau 'Deamtime' yr Aborigone. Roedd y plant wrth eu bodd yn ei holi am ei chartref. Roeddent yn arbennig o awyddus i glywed straeon am anifeiliaid peryglus Awstralia fel nadroedd a'r funnel web spider! Bydd plant Ysgol Dolbadarn yn cyfathrebu â disgyblion Cairns drwy gyfrwng yr e-bost yn y dyfodol.

Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri yn ddiweddar. Diolch am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn ac am bob ymweliad â hi yn yr ysbyty a gartref.

DIOLCH. Dymuna Wilbert a Nellie Davies, 7 Rhes y Graig ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas aur.

DIOLCH. Dymuna Dilwyn a Lesley, 13 Stryd Newton ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, arian a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Lois Ann.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor newydd y Gymdeithas Lenyddol

Undebol yn festri Capel Coch, brynhawn Llun, Hydref 4, am 2 o'r gloch. Bydd parti o'r Waunfawr yn ein diddanu yn y cyfarfod agoriadol. Sylwch ar y newid amser eleni. Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd y Gymdeithas yn y prynhawn gan obeithio y bydd yn hwylus i fwy ddod bryd hynny.

DIOLCH. Dymuna Catherine a'r plant a'r teulu i gyd, ynghyd â chymdogion ymhell ac agos ddiolch o waelod calon am bob cymorth a chefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt yn ystod marwolaeth sydyn John. Diolch yn arbennig i'r Parchg Phillip Hughes ac hefyd i Dewi Williams o Heddlu Gogledd Cymru. Hefyd diolch i Gwynfor a Myrddyn Pritchard am drefniadau'r angladd.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT

POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD

GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234

neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.

Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00



DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CYMDEITHAS CYFEILLION Eglwys Crist, Llandinorwig. Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, Medi 6, dan lywyddiaeth y Parchg Tegid Roberts. Agorwyd y noson gyda gweddi a darlleniad o'r Beibl. Cydymdeimlwyd yn ddwys â theuluoedd y rhai sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Pleser oedd croesawu ein gwraig wadd, Mrs Nant Roberts. Difyr oedd gwrandio arni yn egluro a thrafod 'Reflexology'. Diolchwyd i Mrs Roberts gan Mrs Jennie Williams. I ddiweddu'r noson cafwyd stondin 'Moes a Phryn' i godi arian at y Gymdeithas.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Hydref 4, pan fyddwn yn cael swper cynhaeaf gyda'r aelodau yn ei baratoi. Y siaradwr gwadd fydd ein Curad, y Parchg Gareth Parry ac edrychwn ymlaen i'w groesawu atom.



PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 28 Awst, yn Eglwys Llanystumdwy priodwyd Aeron, mab Mr a Mrs John M. Jones, Rhes Marian â Sharon unig ferch Mr a Mrs R. Roberts, Chwillog. Gwasanaethwyd gan y Canon William Jones a'r organyddes oedd Mrs Carys Jones; y gwas oedd Mr Paul Dean a'r morynion oedd Mrs Carol Davies, Mrs Helen M. Morris, Llio, Bethan a Shannon; y tywyswyr oedd Mr Hefin Williams, Dylan a Siôn, Mr Merfyn Morris, Rhys a Gethin. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd datganiad gan Eirin a Gwenda o Chwillog.

Mwynhawyd y wledd briodasol yng Ngwesty'r Goedlan, Edern, a threulir y mis mēl yn crwydro Singapore, Bali a Hong Kong. Byddant yn cartrefu yn Nhrefor.

Hoffent ddiolch i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau ym mro'r Eco am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd.

CLWB 100 PLAID CYMRU. Enillwyr mis Gorffennaf: £10 Mr Hywel Williams, 3 Pentre Helen; £5 Mrs Iona Richards, 5 Tai Caradog. Enillwyr mis Awst: £10 Mr Dafydd Morris, Cefn Coch; £5 Mrs Mary Wyn Jones, Ceris.

DIOLCHIADAU. Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Eluned May Jones, 13 Hafan Elan, Llanrug ddiolch i drigolion Hafan Elan, Dilys ac Arthur a'r holl ffrindiau a ddangosodd garedigrwydd a chymorth iddynt yn eu profedigaeth drist o golli mam a nain annwyl.

Dymunir diolch i'r cyfeillion ffyddlon Mary a John Leach, Y Becws, am eu caredigrwydd am un 22

mlynedd ar ddeg. Buont yn garedig wrth bobl Deiniolen yn ystod y cyfnod hwnnw. Dymunwn iddynt iechyd a hoen i'r ddau yn eu cartref newydd.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun, Medi 20, yn y Caban. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y llywydd, Ellen Wyn Jones. Roeddem yn falch o weld rhai a fu'n sâl yn ôl gyda ni a dymunwyd gwellhad buan i Peri Evans. Llongyfarchwyd Alice Griffith yn gynnes ar ennill cystadleuaeth cwblhau limrig yn Y Wawr ac edrychwn ymlaen am gael ei darllen yn y rhifyn nesaf.

Braint oedd cael croesawu'r Prifardd Gerallt Lloyd Owen atom a mwynhawyd yn fawr ei sgwrs ar 'Hwyl y Talwrn'. Dywedodd bod cydbwysedd yn y Talwrn, a rhywbeth at ddant pawb — o'r limrig i'r englyn a chawsom ganddo ddetholiad difyr o rai o'r cynhyrchion dwys a doniol. Diolchwyd iddo gan y llywydd a chan Buddug Jones. Gwnaed y te gan N. Owen, J. Jones ac M. C. Griffith.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 18, pryd y cawn sgwrs ar 'Shiatsu lachusol' gan Eryllt Harker, Gerlan. Croeso cynnes i bawb.

DYMUNA Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion o Ddeiniolen a Phenisarwaun am y caredigrwydd a'r rhoddion a gafwyd ganddi pan gyfarfu â damwain yn ddiweddar. Erbyn hyn mae Mrs Griffiths yn gwella.

DRAENOG

Bu bron i Eglwys Crist Llandinorwig gael aelod newydd ryw nos Sul yn ddiweddar. Pan gyrhaeddodd un o'r selogion yr Eglwys — yn ben set y noson honno — beth oedd yn eistedd yn barchus ar sedd gefn y car ond cath drws nes! Gan nad yw un gorhoff o gathod fe'i gadawodd yn y car y tu allan i'r Eglwys a chwarae teg i'r clochyd aeth â hi adref i chwilio am ei pherchennog. Pan ddaethant yn ôl roedd y gwasanaeth wedi hen ddechrau. Trueni na fyddai'r hen gath wedi cael dod i mewn i'r Eglwys — siawns na fyddai rhywun yn y gynulleidfa wedi gwirfoddoli i'w dal ar **EI LIN**.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Y Ganolfan, Waunfawr, nos Wener, 3 Medi. Bu cyflwyniad gan gwmni Rheilffordd yr Ucheldir am ei fwriad i ailagor y lein i Waunfawr erbyn mis Mai 2000. Diolch i ymdrechion y Cyngor Cymuned fe docwyd y gordyfiant ar y ffin rhwng 1 Bryn Gof a'r lôn; a'r gordyfiant ar hyd y ffordd osgoi. Penderfynwyd pwyso ar Gyngor Gwynedd newid y cytundeb torri ochr priffyrdd er mwyn torri'n ehangach ac osgoi aildyfiant. Dal i ddisgwyl ateb mae'r Cyngor am yr angen i ailwynebu'r palmant ger y fynedfa i Pennant a Mur Matthew. Yn anffodus ar ôl gwariant mawr ar dirlunio'r gylchfan nid oes arian gan Gyngor Gwynedd i casglu'r gwair! Mae Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu mynediad i gefn Hafan, Bryngwna o Dai Glangwna; tanc olew i Dŷ Newydd a man parcio i'r gweithdy yn Garej Gwalia. Bydd yn rhaid i fudiadau gwirfoddol yng Nghaeathro gyflwyno ceisiadau am gymorth ariannol i'r Clerc (Dewi Jones, 13 Erw Wen) ar gyfer 1999-2000 cyn diwedd mis Medi fydd yn cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 11 Hydref. Ym marn y Cyngor mae'r arwyddion pren newydd sydd gyferbyn a'r hen arwyddion llwybrau cyhoeddus yn wastraff arian cyhoeddus. Er mwyn diogelu cerddwyr gofynnir i'r Syrfewr dorri'r tyfiant sy'n llesteirio'r olygfa wrth groesi'r ffordd newydd rhwng y cae chwarae a'r llyn uchaf ar hyd llwybr 44.

LLWYDDIANT. Bu Hannah Medi, Llyngele yng Nghaerdydd yn ystod ymladdoedd Judo Cymru yn ddiweddar. Ennill 5 allan o 5 gornest oedd ei hanes a derbyn y 'mini-mon' Cymreig yng Ngerddi Sophia.

CYNGHORYDD SIR. Oblegid llwyddiant Eurig Wyn yn Etholiad Ewrop bydd yn rhaid cael Cyngorydd Sir i'w olynu. Os bydd mwy nag un ymgeisydd fe gynhelir is-etholiad ar 4 Tachwedd.

CRICEDWR O FRI. Dyn y gêm wrth i Glwb Criced Bangor guro Dolgellau yn rownd derfynol y Pike Trophy ym Methesda oedd Tom Evison, Cae Hopsyn. Sgoriodd Tom 43 rhediad a chipiwyd 3 wiced ganddo hefyd.

AMSERLEN BWS. Gyda'r amserlen bws newydd wedi cychwyn ers 26 Medi gwelwyd rhai newidiadau. Ceir

bws ychwanegol o Gaernarfon am 8.40 y bore trwy Waunfawr i Lanrug. Bydd y bws olaf yn gadael Caernarfon am 11.20 yr hwyr.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir yr Ysgol Sul bob bore Sul am 11 ac mae croeso i blant newydd. Disgwylir y canlynol i bregethu yn ystod mis Hydref:

3. **Diolchgarwch.** Parchg W. R. Williams (2)

10. Parchg Glyn Tudwal Jones, Bangor (2)

17. Parchg W. R. Williams (2)

24. Parchg Trefor Jones, Caernarfon (2)

31. Parchg Dilys Davies, Waunfawr (5.30)

SYMUD I FYW. Mae Yvonne ac Eryl (Griffith-) Jones wedi symud o'u hen 'Cynefin', 5 Tai Glangwna ac yn byw dros dro yn Nerwynfa, Tai Brynteg, cyn symud i'w cynefin newydd.

YSBYTY. Bu Susan Thomas, 4 Bryn y Gof yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a da deall ei bod yn gwella.

YN ÔL O BORNEO. Aelod o dîm merched Cymru yng Ngystadleuaeth Byd Rhedeg Mynyddoedd oedd Jayne Lloyd, Bodawel. Ar ôl hedfan i Ynys Boreno aeth hi a gweddill tîm Cymru i fyny y mynydd uchaf yn Neddwyrair Asia, Kinabalu (4000 metr), mewn diwrnod, yn lle y deuddydd arferol, yn dod i lawr trwy storm drofannol o felld a tharanau. Yn y ras ei hunan roedd tîm merched Cymru yn nawfed, gyda Jayne ei hunan yn 43, safle arbennig o dda, fel rhedwr amatwr efo Rhedwyr Eryri, yn erbyn rhedwyr proffesiynol llawn-amser (fel y rhai o'r Didal gyda'u cyflogau llawn-amser o'r llywodraeth). Roedd tîm dynion Cymru yn 8fed — eu canlyniad gorau erioed. Aelod o'r tîm yw Colin Donnelly o Ddinorwig, yn rhedeg yn ei flwyddyn gyntaf fel 'Feteran' (h.y. dros 40 oed), yr unig berson yn y byd sydd wedi rhedeg ym mhob un o'r 15 rasys mynydd y byd.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Enillwyr y dynfa fisol am fis Medi oedd — £40 Mrs M. Lovell, 2 Erw Wen; £25 Ifor Hughes, Lleifior; £15 Mrs M. Hemsorth, Barn Cottage; £5 Mr J. Jones, 5 Erw Wen.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840



CARPEDI GERAINT OWEN

**GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC**

FFONIWCN UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882


Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

CROESAIR HYDREF



ENW.....

CYFEIRIAD.....

.....CÔD POST.....

Fe guddiwyd pethau o'r un fath mewn deg o'r cliwiau. Ni roddir unrhyw arwydd o ba gliwiau y cyfeirir atynt nag ychwaith ddiffiniad o'r ateb!

AR DRAWS

1. Gwnaed addewid y cawn enfys ar ôl glaw (6)
4. Cwmni o gerddorion (4)
7. Un del iawn ydi cariad y Dywysoges (5)
11. Chwilio am wraig (7)
12. Cadachau i ymolchi'r wyneb (9)
13. Ia, parot sy'n gwneud pethau'n barod (7)
14. Defnyddio'r llygaid (5)
18. Am hynny... (4)
19. Crafiad (9)
24. Haul addolwyr sy'n crynu yn y gaeaf (7)
25. Casgliad neu gynulliad (7)
27. Meirch (9)
28. Traean o bum ceiniog! (4)
31. Roedd un Blake yn llosgi'n ddisglair yng nghoedwig y nos (5)
33. Agennau (7)
39. Enghreifftiau (9)
40. Paffwyr sy'n tynnu'r grawn o'r yd? (4)
41. Punt y Cofi yn y sinema?
42. Mae brolio mawr ar lais operatig Bryn Terfel (4)
43. Mae tri lliw ar faner Cymru (6)

I LAWR

1. Mae afal cyfan yn ormod o lond ceg i Dafydd bach (5)
2. Y lôn fach sy'n gorffen islaw tref Caerfyrddin (4)
3. Yn flin o greu niwed i farch ei feistr (6)
5. Darn o bren nadd o dan ysgol (8)
6. Cerflun taid Elwyn (4)
7. Mae'n rhaid cael sylfaen gadarn o dan adeilad uchel (5)
8. Iâr fach yr haf cyn bod yn iâr fach yr haf (6)
9. Mae'n chwilio am arian i sefydlu busnes (4)
10. Bwyd yn gwneud i Barbara feddw ddiosg ei bra! (4)
15. Agoriad (5)
16. Acen od bro di-gylch ar gyfer hen flanced (6)

17. Detholiad o eiriau olaf Anti Nel (6)
18. Dewch i wrando ar fand o Nefyn (6)
20. Esgid agored heb sawdl (6)
21. Dymuniad cryf (4)
22. Heb amheuaeth o gwbl (2 2)
23. Asio metalau (5)
26. Canfod gwerth, rhoi pris ar waith rhai proffesiynol (8)
29. Her Wil i fynd i ddifa'r llwynog (6)
30. Bwch gafr (6)
32. Un o Gwmaman (5)
34. Dyn merchetaidd mewn ffroc a dillad dynas (4)
35. Dyn (5)
36. Hanner spectol Len Smith (4)
37. Elis Cyfrwys (4)
38. Tywyllwch cynddaredd di-ddiwedd (4)

CROESAIR MEDI

Derbyniais atebion hollol gywir i groesair Medi gan Miss Mair Foulkes, Penisarwaun; Nan Owen, Llanberis; Gwen Davies, Neston, Wirral; Moreen Lennon, Llanberis; Elfed Evans, Llanllechid; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Mair Evans, Caernarfon; Catherine A. Jones, Rhiw; Olwen Owen, Llanberis; Eirian Roberts, Tregarth; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Hywel Griffith, Awstralia; Rosemary Williams, Tregarth; Mary Davies, Waunfawr; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Mair Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo ac enillydd y mis, sef Mrs G. Gill, Henllys, Ffordd Deiniol, Bangor LL57 2UP. Roedd mân gangymeriadau yn y chwe ymgais arall a ddaeth i law.

Ar ôl cwblhau croesair mis Hydref, anfonwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Hydref 20fed os gwelwch yn dda.

DYDDIADUR MIS HYDREF


1. Gwe **CWM-Y-GLO:** Sêl cist car yn yr ysgol o 5 hyd 7 o'r gloch.
3. Sul **LLANDDEINIOLEN:** Cymanfa Ganu yn yr Eglwys am 7 o'r gloch.
4. Llun **LLANBERIS:** Y Gymdeithas Lenyddol yn Ffestri Capel Coch am 2 o'r gloch.
CEM-Y-GLO: Undeb y Mamau.
DEINIOLEN: Swper Cynhaef yn Eglwys Crist, Llandinorwig.
6. Mer **WAUNFAWR:** Cyfarfod cynta'r tymor o'r Urdd yn y Ganolfan am 6.30.
7. Iau **DEINIOLEN:** Cymdeithas y Chwiorydd am 2 o'r gloch yn Ffestri Ebeneser.
11. Llun **DEINIOLEN:** Cyfarfod o dan nawdd y Cyngor Eglwysi yn Libanus am 7 o'r gloch.
12. Maw **LLANRUG:** Merched y Wawr am 7.30 yn yr ysgol gynradd.
13. Mer **BETHEL:** Merched y Wawr yn neuadd yr ysgol.
15. Gwe **PENISARWAUN:** Yr Eisteddfod bentref am 6 yn y Neuadd Gymuned.
17. Sul **DEINIOLEN:** Cyfarfod Diolchgarwch y plant yn Ebeneser am 10 o'r gloch.
18. Llun **DEINIOLEN:** Merched y Wawr. Sgwrs gan Emyllt Harker.
BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched. Sgwrs gan Pat Sharnock.
20. Mer **LLANRUG:** Plaid Cymru. Sgwrs gan Dewi Jones, Penygroes yng Nghanolfan Penisarwaun.
25. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan D. Whiteside Thomas.
30. Sad **DEINIOLEN:** Eisteddfod Gwaun Gynfi am 1 o'r gloch a 6 o'r gloch yn Ebeneser.

RHAGHYSBYSIADAU

TACHWEDD 6: Eisteddfod bentref Waunfawr; Eisteddfod Bethel
TACHWEDD 13: Arddangosfa a Ffair Grefftau yn Neuadd Ysgol Brynrefail;
RHAGFYR 5: Cymanfa Ganu Merched y Wawr yng Nghapel Eneneser, Caernarfon am 8 o'r gloch

RHODDION

£25: Clwb Ffermwyr Ieuanog Bethel.
£5: Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Hilda Williams, 5 Faenol Cottages, Llanberis; Wilbert a Nellie Davies, 7 Rhes y Graig, Llanberis; Mrs Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd, Cwm-y-glo; Aeron a Sharon, Trefor; John Eifion, 7 Bryn Eglwys, Penisarwaun; Mrs Mair Jones, Cilan, Bethel; Mrs Madge Hughes, 3 Bryn Afon Terrace, Llanrug.
£3: Mrs Beryl Griffiths, Maes Gwylfa, Deiniolen.
£2: Dora Evans, Fedwen, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.



Cefnogwch ein
Hysbysebwy



**ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?**

Cysylltwch ag

WALIO

**R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216**

**A
FFENSIO**

**GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU ...**

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Gyda saws afal a stwffin
- ★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188**

CHWARAEON

Sadwrn Pwysig i Gymru

Y Sadwrn diwethaf cefais fy ngolwg cyntaf ar Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Trueni am yr enw, oni chollwyd cyfle i'w henwi yn Stadiwm Cymru, fel y Stade de France ym Mharis? Mae'n anferth, a hawdd dychmygu yr awyrgylch a geir y tu mewn iddi. Heb os nac oni bai, mae'r dwymyn rygbi wedi taro Cymru benbaladr, a'r disgwyliadau yn enfawr. Yn sicr, bydd mantais aruthrol gan Gymru o chwarae pob un o'u gemau yn y 'deml' newydd. Dylai'r tîm lwyddo i ennill eu grŵp ac yna cyfarfod yr 'hogiau mawr' o hemisffer y de. Yn sicr o dan arweiniad heintus Graham Henry, a'r rhediad di-guro diweddar, ni ddylai'r garfan ofni yr un tîm.

Braf oedd clywed ar y radio fod yr optimistaeth yma yn treiddio trwodd i'n prif glybiau rygbi. Mae'r gemau clwb erbyn hyn yn fwy deniadol ac yn denu'r torfeydd yn ôl. Am y tro cyntaf ers 20 mlynedd llwyddwyd i lenwi maes Rodney Parade, Casnewydd ar gyfer y gêm gyffrous yn erbyn Pontypridd. Gobeithio y bydd y dull agored o rygbi yn cael ei adlewyrchu mewn cystadleuaeth gofiadwy am y rhesymau iawn. Dull y timau llwyddiannus fydd y dull derbyniol am y tymhorau i ddod.

Ar 9 Hydref bydd Cymru yn chwarae eu hail gêm grŵp yn erbyn Siapan. Yn anffodus, dim ond ar Radio Cymru y ceir sylwebaeth yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau i ddangos y gemau ar S4C, gan fod y cytundeb wedi ei ennill gan ITV. Trueni arall yw na chlywir Huw Llywelyn Davies yn sylwebu ar y gemau ar y teledu. Dyma wir bencampwr y sylwebyddion ac, ym marn llawer, yn ail agos i Bill McLaren. Tybed faint fydd yn gwylio'r lluniau ar y teledu a gwrando'r sylwebaeth ar y radio.

Yn dilyn y gêm rygbi yn y prynhawn, bydd tîm pêl-droed Cymru yn cyfarfod y Swistir ar y Cae Ras. Yn anffodus, wedi'r sgôr drychinebus yn yr Eidal — a buddugoliaeth Denmarc — ni all Cymru gyrraedd rowndiau terfynol Pencampwriaeth Ewrop. Buasai Cae Ras llawn wedi bod yn gefnogaeth bositif i Mark Hughes a'r garfan.


Fel arfer, byddaf yn mynd a llond bws o'r disgyblion yno. Braf nodi mor hawdd oedd llenwi bws. Un elfen negyddol yn fy marn i yw'r prisiau a godir ar gyfer y gêm. Mae'r tocynnau i oedolion yn £25,

£20 a £15 (i rai sydd yn y lloc deuluol). Pris tocyn i ddisgyblion yw £7.50. Methwyd cyfle yma'n sicr i ddenu'r teuluoedd i'r maes. Gwn fod y Gymdeithas yn dlawd ac angen pob ceiniog ac mai o'r gemau cenedlaethol y daw'r mwyafrif o'r incwm. Serch hynny, oni ddylid edrych ar bob gêm yn unigol. Y cwestiwn a ddylid ei ofyn yw, pa brisiau rhesymol fuasai'n ein galluogi ni i lenwi'r Cae Ras ar gyfer y gêm.

Yn ddi-os bydd cryn adfywiad ac atyniad at rygbi gan ieuenctid yn dilyn Cwpan y Byd. Mae'r Gymdeithas Bêl-droed yn llythrenol ymladd am ei heinioes yn y cyfnod yma. Mae angen arweiniad positif o hyn ymlaen i ddychwelyd mwy o ysbryd a pharch tuag at y 'crysau coch'.



Llongyfarchiadau i Aled Vaughan Roberts o Fethel ar gael ei ddewis i garfan pêl-fasged Cymru dan 16. Bu Aled, a Llion Thomas (Bethel) o Ysgol Brynrefail yn y prawf olaf yn Wrecsam y Sadwrn diwethaf. Yn anffodus ni fu Llion yn llwyddiannus y tro yma. Yn amlwg mae dylanwad Phil Holland yn dwyn ffrwyth eto, yn ei briod gamp. Mae'r ddau hefyd yn aelodau o dîm pêl-fasged Caernarfon.



Willie Mullaine sydd yn aelod o dîm rygbi dan 14 oed Eryri.



Mathew Phillips (Penisarwaun) a Carl Griffiths (Llanrug) sydd yng ngharfan pêl-droed Gogledd Cymru.

Datblygiad pwysig ym mhêl-droed yr ardal yw'r Ysgolion Rhagoriaeth. Maent yn cael eu rhedeg dan oruchwyliaeth hyfforddwyr trwyddedig Cymdeithas Pêl-droed Cymru. Mae'r garfan ar gyfer y cylch yma yn cyfarfod bob nos Fawrth ym

Mangor. Mae 4 disgybl o Ysgol Brynrefail wedi ennill eu lle. Mae Mathew Phillips (Penisarwaun) a Carl Griffiths (Llanrug) yn y garfan dan 13 ac Owain Morris a Marcus Orlik (Llanberis) yn y garfan dan 15.

y ffurflenni swyddogol.

Y categorïau eleni yw: Chwaraewr y Flwyddyn; Tîm y Flwyddyn (hîm); Tîm y Flwyddyn (ieuenctid); Bachgen y Flwyddyn; Geneth y Flwyddyn; Hyfforddwr y Flwyddyn; Gwasanaeth i Chwaraeon; Gwobr Arbennig a Gweinyddwr y Flwyddyn.

Mae gan Fro'r Eco record dda yn y gystadleuaeth hon dros y blynyddoedd. Gobeithio y bydd y traddodiad yn parhau. Ymlaen â'r cnwcbu.



Ceri Jones sy'n chwarae fel 'goal attack' i dîm pêl-rwyd dan 14 Gwynedd.

Bu Gareth Roberts, Crigyll, Llanrug ymysg yr enillwyr ym Mhencampwriaeth Prydain i'r sawl a dderbyniodd drawsblaniad. Cynrychioli tîm Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl yr oedd Gareth — ysbyty mae'n ymweld â hi bob chwe wythnos o dan y driniaeth monitro trawsblaniad. Yn y gystadleuaeth nofio, enillodd y fedal aur yn y ras Cefn i nofwyr dan 14, ac arian yn y rasmus dull rhydd a'r frest. Ar dir sych, enillodd fedal arian i fechgyn dan 14 yn y gystadleuaeth badminton. Stori o lwyddiant anhygoel yw hon, ond mae un elfen drist hefyd. Bu Gareth yn hynod ffodus i dderbyn trawsblaniad a roddodd iddo statws well o fywyd. Erbyn heddiw mae'r nifer o bobl sy'n cario'r 'cardiau donor' yn hynod o isel. Mae hyn yn creu cryn problem ac yn llesteirio'r gallu i ail-adrodd storïau positif fel un Gareth.

A Oes Teilyngdod

Un o uchafbwyntiau chwaraeyddol y cylch yw'r Noson Wobrwyo wedi ei threfnu gan Gyngor Chwaraeon Dosbarth Arfon. Tyfodd y syniad dros y blynyddoedd a hen ennill ei blwyf. Dewiswyd siaradwyr gwadd y gorffennol, gan gynnwys yr unigryw Tammi Gray, Tony Lewis a meistr y siaradwyr cyhoeddus, Cliff Morgan. Un elfen bwysig o'r noson yw'r ffordd y gall adlewyrchu y sbectolwyr a'u chwaraeion sydd

erbyn hyn y tu mewn i diriogaeth Arfon. Mae cynlluniau hyfforddi wedi eu gosod mewn lle ac erbyn hyn nid peth annisgwyl yw gweld cynrychiolwyr a phencampwyr cenedlaethol ar ein stepan drws ein hunain. Ar gyfer y noson, wrth gwrs, rhaid cael pobl i enwebu. Y mae'n ofynnol i'r enwebiadau gyrraedd erbyn Hydref 4, fan bellaf. Yn ardal Arfon dylid anfon yr enwau at Jen Williams, Fferm Cae Helgan, Bontnewydd, Caernarfon LL55 7YG. Rhaid cael yr enwebiadau ar

Er Gwybodaeth — a Lles

Yn ddiweddar bûm mewn cyfarfod yn trafod cynllun newydd y Cist Cymunedol. O dan y cynllun bydd arian penodol — £45,000 yng Ngwynedd — i gefnogi clybiau a sefydliadau chwaraeion lleol. Os oes angen mwy o wybodaeth gellir cysylltu â Marianne Jackson yn Adran Hamdden y Cyngor Sir yng Nghaernarfon.